# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 29AIN MEDI, 2022**

NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10.00 y.b.

Lleoliad

**Cyfarfod Hybrid - Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH ac yn rhithiol drwy Zoom**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Sioned Mai Jones**

**01286 679665**

**SionedMaiJones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 21 Medi 2022)

## PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

**AELODAETH (18)**

## Plaid Cymru (11)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Rheinallt Puw
Linda Ann Jones
Gwynfor Owen
Einir Wyn Williams
Jina Gwyrfai

Medwyn Hughes
Dewi Jones
Linda Morgan
Meryl Roberts
Sasha Williams

## Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Eryl Jones-Williams
John Pughe

Anwen J. Davies
Beth Lawton
Angela Russell

## Llafur/Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Gareth Coj Parry

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

Y Cynghorwyr

Dilwyn Morgan
Craig ab Iago
Elin Walker Jones

# R H A G L E N


## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

I nodi unrhyw eitemau sydd yn fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION — 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 7fed o Orffennaf 2022 fel rhai cywir.

## 5. CYFRFODYDD HERIO PERFFORMIAD - PLANT A THEULUOEDD

I enwebu aelod o'r Pwyllgor i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad ar gyfer y maes gwaith Plant a Chefnogi Teuluoedd.

## 6. RECRIWTIO A CHADW STAFF (ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT) — 9 - 15

I ddiweddaru'r Pwyllgor Craffu Gofal ar yr argyfwng staffio sy'n bodoli ac yn gwaethygu yn y maes gofal oedolion.

## 7. GWASANAETH CADWRAETH YNNI NEWYDD — 16 - 36

I ddiweddaru'r Pwyllgor ar weithrediad y Gwasanaeth Ynni Newydd yn ogystal â'r gwaith Newid Hinsawdd.

## 8. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 2022/23 — 37 - 39

I gyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 i'w mabwysiadu.

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL DYDD IAU, 7 GORFFENNAF 2022

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Menna Baines, Anwen J. Davies, Jina Gwyrfai, Dewi Jones, Elwyn Jones, Linda Ann Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Linda Morgan, Gwynfor Owen, Gareth Coj Parry, John Pughe, Rheinallt Puw, Meryl Roberts, Angela Russell a Sasha Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) a Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Eraill yn bresennol:**
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), Hawis Melangell Jones (Rheolwr Tîm Prosiectau Oedolion, Iechyd a Llesiant), Alun Gwilym Williams (Uwch Reolwr Busnes), Y Cynghorydd Elin Walker Jones (Aelod Cabinet Plant a Cefnogi Teuluoedd) a Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd).

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal am y flwyddyn 2022/23.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Linda Ann Jones yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal am y flwyddyn 2022/23.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr R. Medwyn Hughes ac Einir Wyn Williams.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nododd y Cynghorydd Linda Ann Jones ei bod hi'n gyfarwyddwr ar gwmni Seren. Nid oedd hwn yn fuddiant oedd yn rhagfarnu felly ni adawodd y cyfarfod.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Mawrth, 2022 fel rhai cywir.

**7. CYFARFODYDD HERIO PERFFORMIAD**

Cyflwynwyd adroddiad byr yn egluro'r trefniadau Herio Perfformiad ac yn gofyn i'r Aelodau enwebu cynrychiolwyr i fynychu'r cyfarfodydd Herio Perfformiad. Esboniwyd bod angen dau

gynrychiolydd i bob maes gwaith a bydd angen i gynrychiolwyr y Pwyllgor Craffu Gofal fynychu cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn. Ychwanegwyd y bydd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i dderbyn diweddariadau ar brosiectau blaenoriaeth ac yn gyfle i herio a dod a materion i sylw'r Pwyllgor Craffu.

**PENDERFYNWYD:**
**Enwebu'r Cynghorwyr canlynol i fynychu cyfarfodydd Herio Perfformiad:**

- **Maes gwaith Oedolion Iechyd a Llesiant: Y Cynghorwyr Sasha Williams a Meryl Roberts.**
- **Maes gwaith Plant a Chefnogi Teuluoedd: Y Cynghorydd Gwynfor Owen gyda'r ail enwebiad i'w gadarnhau yng nghyfarfod mis Medi o'r Pwyllgor hwn.**
- **Maes gwaith Tai ac Eiddo: Y Cynghorwyr Dewi Jones a Menna Baines.**

## 8. CRAFFU TREFNIADAU GOFAL IECHYD CANOLBARTH CYMRU

Gofynnwyd i'r Pwyllgor am dri enwebiad i gynrychioli'r Pwyllgor Craffu Gofal a'r Grŵp Craffu Cydbwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru. Darparwyd gwybodaeth am gefndir y Grŵp a'i nod yn ogystal â'i rôl, sy'n cynnwys edrych ar ddarpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghanolbarth Cymru a materion sy'n effeithio ar bobl sy'n byw yn yr ardaloedd perthnasol.

**PENDERFYNWYD:**
**Enwebu'r Cynghorwyr John Pughe, Linda Ann Jones ac Eryl Jones-Williams i gynrychioli'r Pwyllgor Craffu ar Grŵp Craffu Cydbwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru.**

## 9. ADRODDIAD SEFYDLOGRWYDD MARCHNAD GOGLEDD CYMRU

Derbyniwyd rhagair gan yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant yn nodi pwysigrwydd y ddogfen hon a pha mor ddefnyddiol ydyw. Adroddwyd bod yr adroddiad yn mynd law yn llaw a'r Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru gafodd ei graffu nôl ym mis Chwefror gan y Pwyllgor oedd yn edrych ar yr anghenion gofal a chymorth. Nodwyd bod yr adroddiad hwn yn ymateb i'r Asesiad Anghenion trwy fesur beth sydd eisoes mewn lle yng Ngogledd Cymru i ymateb i'r gofynion ac yn cwestiynu os yw'r ddarpariaeth sydd mewn lle yn ddigonol.

Adroddwyd y bydd yr Adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad Gogledd Cymru yn mynd i'r Tîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet cyn mynd i'r Cyngor Llawn ar gyfer cymeradwyaeth. Ychwanegwyd ei bod yn ddogfen ranbarthol sydd yn dangos tueddiadau ar draws y Gogledd yn ogystal â negeseuon lleol i Wynedd. Diolchwyd i swyddogion yr Adran am eu gwaith caled o fewn amserlen dynn gan nodi y bydd yr adroddiad yn parhau i fod yn ddogfen fyw fydd yn cael eu haddasu ac o ganlyniad yn ddogfen ddefnyddiol iawn. Cymerwyd y cyfle hefyd i longyfarch y Cynghorydd Eryl Jones-Williams ar dderbyn Cadeiryddiaeth y Pwyllgor hwn.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Tîm Prosiectau Oedolion, Iechyd a Llesiant gan nodi bod yr Adroddiad yn un eang iawn sy'n ymdrin â'r gwasanaethau i oedolion ac i blant gyda negeseuon pwysig yn cael eu cyfleu. Mae'r adroddiad yn ymdrin â nifer o themâu meis gofal preswyl a nyrsio, mabwysiadu, maethu a gwasanaethau gofal cartref, yn ogystal ag agweddau yn ymwneud a darpariaeth llety diogel. Nodwyd bod yr adroddiad hefyd yn sôn am wasanaethau arbedol a'n cydnabod eu pwysigrwydd er mwyn lleihau pwysau ar y gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio.

Eglurwyd ei bod yn ofynnol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i lunio'r adroddiad ac y bydd yn cael ei ddiweddaru dros y misoedd nesaf a'i gadw'n gyfredol. Ymhelaethwyd ar y negeseuon am Wynedd sydd wedi eu nodi yn rhan 5 o'r Adroddiad a'r rhagfynegiadau am y cynnydd fydd ei angen yn y gofal a'r ddarpariaeth sydd ar gael dros y blynyddoedd nesaf. I gloi nodwyd bod yr hyn a gyflwynwyd yn ymgais i grynhoi'r prif negeseuon sy'n berthnasol i Wynedd ac y bydd yr adroddiad yn ei gyfanrwydd yn cael ei gyhoeddi yng Ngogledd Cymru ar ôl cael ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ym mis Hydref.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Mynegwyd diolch a gwerthfawrogiad i'r Swyddogion oedd wedi llwyddo i gwblhau'r adroddiad yn erbyn terfyn amser tynn.
- Nodwyd ei bod yn ddiddorol gweld yn yr adroddiad sut mae Cynghorau unigol y Gogledd yn delio â phroblemau.
- Holiwyd am ddiweddariad ynghylch taliadau uniongyrchol gan nodi nad oedd gwybodaeth am Wynedd yn yr adroddiad.
- Gwnaethpwyd sylw bod tueddiad i gyffredinoli'r maes Oedolion fel gwasanaeth ar gyfer yr henoed yn unig; teimlwyd bod tueddiadau i sôn am yr henoed wrth drafod cartrefi cefnogol gan anghofio am eraill sy'n derbyn y ddarpariaeth. Mewn ymateb nododd y Pennaeth Adran bod hyn yn adlewyrchu maint y gwasanaeth ar gyfer yr henoed a sicrhawyd bod pob elfen o'r maes Oedolion yn derbyn sylw.
- Mynegwyd pryder am y diffyg darpariaeth Gymraeg o fewn y meysydd Awtistiaeth ac Iechyd Meddwl yng Ngwynedd a phwysleisiwyd pwysigrwydd derbyn y darpariaethau hyn yn Gymraeg. Credwyd bod cyfle yma i gynnig darpariaeth arbenigol Gymraeg ac efallai y gall Siroedd eraill fanteisio ar y ddarpariaeth.
- Arsylwyd bod galw am ofal arbenigol dementia yn y Sir ond nad oes darpariaeth ar gael yn Llŷn nac Meirionnydd oedd yn peri pryder. Ychwanegwyd hefyd bod Unedau yn methu cynnig lleoliadau sy'n wag oherwydd prinder staff arbenigol. Holiwyd beth yw'r bwriad i ddelio â hyn ac os bydd digon o staff ar gael yn y dyfodol agos ac ar gyfer y datblygiadau newydd fydd yn agor ym mis Hydref. Cwestiynwyd hefyd os yw'r prinder staff wedi arwain at leoliadau gwag mewn cartrefi gofal a phreswyl.
- Gwnaethpwyd sylw am faterion ieithyddol a pha mor bwysig ydyw i breswylwyr dderbyn gwasanaeth yn eu hiaith ddewisol. Ychwanegwyd fod yn hyn broblem pan mae lleoliadau y tu allan i ardal yn digwydd a'i fod yn gwneud gwahaniaeth i'r gofal sy'n cael ei dderbyn. Credwyd bod angen mwy o ddarpariaethau yn Ne Meirionnydd yn ogystal â gweddill y Sir.
- Cydnabyddwyd bod y maes gofal yn un heriol o ystyried bod oedran poblogaeth y Sir ynghyd a Siroedd eraill yn mynd yn hŷn. Credwyd bod lle i Gyngor Gwynedd ymgymryd â'r heriau ond bod hefyd angen i'r Llywodraeth geisio ymateb i'r heriau hyn.
- Gwnaethpwyd sylw bod angen cynllunio ymlaen llaw a chyfeiriwyd at yr adroddiad oedd yn nodi bod 15 Rheolwr yn llai o fewn y maes Gofal ar draws rhanbarth y Gogledd y flwyddyn diwethaf o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Nodwyd hefyd bod 230 allan o 310 o'r Rheolwyr ar draws Gogledd Cymru dros 51 oed. Gofynnwyd sut mae Cyngor Gwynedd yn cymharu efo'r sefyllfa yma a beth yw ymateb y Cyngor i ddelio a'r sefyllfa. Holiwyd sut mae'r Cyngor yn bwriadu denu staff newydd a datblygu Rheolwyr ar gyfer y dyfodol.
- Mynegwyd bod y sefyllfa staffio yn fregus iawn; cymerwyd y cyfle i gydnabod y gwaith mae staff Gwynedd yn ei wneud a'r ymdrechion i gadw staff a cheisio denu staff.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod a chwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Bod unrhyw un sy'n derbyn gofal i fod i dderbyn y cynnig i dderbyn taliadau uniongyrchol i dalu am eu gofal. Cydnabyddwyd bod y nifer sy'n derbyn taliadau uniongyrchol yn isel yng Ngwynedd; tybiwyd fod hyn yn rhannol oherwydd cymhlethdod y broses. Adroddwyd bod gwaith yn digwydd ar hyn o bryd i symleiddio'r broses a dros y ddwy flynedd nesaf bwriedir edrych ar wahanol opsiynau gan gynnwys mewnoli'r gwasanaeth. Cadarnhawyd y bydd manylion yn cael eu pasio i aelodau er mwyn iddynt allu eu rhannu efo teuluoedd sy'n ymholi mor fuan a fu'n bosib pan fydd y gwaith diweddaru wedi ei gwblhau.
- Cytunwyd â'r sylw ar bwysigrwydd darparu gwasanaeth a darpariaeth Gymraeg gan nodi bod hyn yn allweddol ond nad yw hyn wastad yn hawdd. Nodwyd bod angen sicrhau bod dewis iaith ar gael i unigolion, yn enwedig unigolion sydd yn dioddef o ddementia.
- Soniwyd am y rhaglen buddsoddi gan gyfeirio at y gyfres o gyflwyniadau gafodd eu cynnal i aelodau blwyddyn a hanner yn ôl i roi darlun ar faint o fuddsoddi sydd wedi cael eu gwneud ar draws y Sir. Nodwyd yn y saith mlynedd diwethaf bod y Cyngor wedi llwyddo i ddyblu nifer o wlâu Unedau dementia yn y Sir. Credwyd bellach bod angen dyblu'r niferoedd sydd ar gael eto i allu cwrdd â'r galw presennol.
- Adroddwyd ar y buddsoddiadau sylweddol sydd ei angen ar gyfer gwireddu'r cynlluniau gan nodi nad yw'n hawdd canfod yr arian ar gyfer adeiladau/cyfalaf a'r refeniw sydd ei angen i redeg gwasanaethau. Nodwyd bod y Cyngor wedi buddsoddi llawer ac y dylid bod yn falch o'r hyn sydd wedi ei gyflawni hyd yma ond eglurwyd y bydd angen rhagor o fuddsoddiad cyfalaf a refeniw dros y blynyddoedd nesaf.
- Ychwanegwyd y bydd Darpariaeth Gofal Dementia yn cael ei graffu gan y Pwyllgor hwn cyn y Nadolig ac y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno bryd hynny ar y darlun presennol ac yr anghenion a ragwelir.
- Soniwyd am y buddsoddiadau a ganlyn ym Meirionnydd:
    - Bryn Blodau – Yr uned yn barod ond heb agor eto oherwydd materion cofid a'r methiant i recriwtio staff gofal digonol. Arweiniai hyn at 9 gwely gwag yn yr uned ar gyfer dementia sydd yn sefyllfa anffodus.
    - Hafod Mawddach – Y buddsoddiad ar yr estyniad wedi ei gwblhau ac wedi llwyddo i recriwtio staff ond yn brin o staff achlysurol / staff cyfro. Gobeithir gallu agor yr uned ym mis Medi.
    - Cefn Rodyn – Adroddwyd ei bod yn anodd gwneud y newidiadau oedd wedi eu bwriadu oherwydd natur y lleoliad a'r adeilad. Buddsoddiad yma i ddarparu gwasanaethau mwy dwys ond heb fod yn Uned dementia. Nodwyd bod gwlâu gwag yng Nghefn Rodyn ar hyn o bryd oherwydd bod y lifft wedi torri. Gobeithir y bydd y lifft wedi ei drwsio erbyn diwedd yr haf.
- Ychwanegwyd bod y darlun uchod am sefyllfa Meirionnydd yn gyffredinol yn adlewyrchiad teg ar gyfer y sefyllfa ar draws gweddill y Sir; nodwyd bod yr her o gael capasiti staff digonol i lenwi gwlâu yn un anodd ac nid yn broblem sy'n unigryw i Wynedd.
- Cyfeiriwyd at Lys Cadfan a'r llwyddiannau cychwynnol ond ychwanegwyd bod pwysau wedi bod yn ddiweddar oherwydd absenoldebau staff sydd wedi creu anawsterau a heriau i gynnal gwasanaethau. Nodwyd bod y sefyllfa recriwtio yn y maes yn heriol ac yn amrywio rhwng ardaloedd o fewn y Sir.
- Eglurwyd bod yr hyn a nodwyd yn yr adroddiad am sefyllfa staffio, yn benodol rheolwyr, ar draws Gogledd Cymru yn debyg i'r sefyllfa yng Ngwynedd. Tybiwyd bod

ymhell dros dreian o’r gweithlu gofal yn ei gyfanrwydd dros 55 oed yng Ngwynedd., arweiniai hyn at risg o golli staff. Mynegwyd bod y gwasanaeth gofal yn wynebu cyfnod heriol. Cytunwyd efo’r pwynt bod cyfran sylweddol o’r atebion i’r problemau hyn yn ddibynnol ar y Llywodraeth a’u blaenoriaethau o ran ariannu Llywodraeth Leol. Credwyd bod angen ymyrraeth bendant a chadarn yn fuan cyn i’r gwasanaeth gofal ddioddef ymhellach. Pryderwyd bod yr heriau o gynnal gwasanaethau yn effeithio ar y sawl sy’n derbyn gwasanaeth a’u teuluoedd a bod mater pellach o lesiant staff yn peri pryder oherwydd prinder a’r pwysau ar staff presennol.

Adroddwyd y bydd copi terfynol o’r adroddiad wedi iddo dderbyn cymeradwyaeth ar draws chwe Cyngor y Gogledd yn ogystal ag Iechyd a’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cael ei gyflwyno i’r Llywodraeth. Bydd yn cael ei fwydo fewn i’r Cynllun Ardal ynghyd a’r Asesiadau Anghenion; bydd popeth yn cael ei gyfuno er mwyn creu Cynllun Ardal ar gyfer Gogledd Cymru. Yna gall Gyngor Gwynedd benderfynu sut i ddefnyddio’r wybodaeth er mwyn gwneud penderfyniadau.

Mynegodd yr Aelod Cabinet ei ymddiheuriadau oherwydd bod rhai o’r copïau papur gafodd eu hanfon allan wedi bod yn anodd i’w deall oherwydd materion argraffu. Diolchodd i’r Cadeirydd am ei awgrym i ail argraffu’r papurau a’u hanfon allan unwaith eto.

Nodwyd mai'r argymhelliad yw i’r Pwyllgor gymeradwyo’r Adroddiad hwn cyn ei gyflwyno i’r Cabinet a’r Cyngor. I gloi pwysleisiwyd pwysigrwydd y ddogfen gan nodi bod safon y cwestiynau gafodd eu holi yn ystod y cyfarfod yn dangos bod y ddogfen hon yn gallu llywio trafodaeth yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o’r problemau sy’n wynebu’r Cyngor. Diolchwyd i’r Aelodau am eu cwestiynau ac i’r Swyddogion am eu hymatebion.

**PENDERFYNIAD**

a) **Derbyn yr adroddiad gan nodi’r wybodaeth.**
b) **Mynegi cefnogaeth y Pwyllgor i gymeradwyaeth yr adroddiad gan y Cabinet a’r Cyngor.**

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben am 15:15

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 29 Medi 2022 |
| **TEITL** | Recriwtio a Chadw Staff Gofal Oedolion |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dilwyn Morgan |
| **AWDUR** | Rhion Glyn, Pennaeth Cynorthwyol (Darparu), Adran Oedolion Iechyd a Llesiant |
| **PWRPAS** | Diweddaru'r Pwyllgor Craffu Gofal ar yr argyfwng staffio sy'n bodoli ac yn gwaethygu yn y maes gofal oedolion |

## 1 Pwrpas yr adroddiad

1.1 Diweddaru'r Pwyllgor Craffu Gofal ar yr argyfwng staffio sy'n bodoli ac yn gwaethygu. Anelir i sicrhau fod aelodau'r pwyllgor yn llwyr ymwybodol o'r heriau presennol i ddarparu a chyflawni'r hyn sy'n bwysig i'n trigolion. Mae'r adroddiad yn amlygu'r problemau a'r bylchau, ac yn adrodd ar yr hyn sy'n cael ei wneud mewn ymateb i gyfyngu'r effaith hyd y gallwn.

## 2 Cefndir

2.1 Ers rhai blynyddoedd mae recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol wedi bod yn broblemus ac yn sialens. Adroddwyd i'r Pwyllgor Craffu ar anawsterau recriwtio yn ôl yn mis Mehefin 2019. Ers hynny mae'r pandemig wedi gwaethygu'r sefyllfa, ac rydym yn gweld fod y pwysau mae staff wedi ac yn parhau i'w wynebu wedi arwain at staff yn gadael y sector.

2.2 Mae llenwi'r bylchau hyn yn gynyddol heriol ac yn cyfrannu fwy fyth ar y pwysau gwaith sydd ar eraill. Mae'r methiant i lenwi swyddi wrth reswm yn creu pwysau ond hefyd mae'r ymateb anorfod sy'n deillio wedyn hynny, sef gorfod tynnu staff oddi wrth tasgau a blaenoriaethau eraill, yn cyfrannu ymhellach fyth at y sefyllfa.

2.3 Adroddodd gynrychiolwyr Awdurdodau Lleol Cymru i Llywodraeth Cymru yn ddiweddar fod y pandemig wedi cael 'effaith dinistriol' ar nifer o staff yn y sector gofal, ac mae eu lles a'u hiechyd meddwl yn parhau i fod yn bryder.

2.4 Mae'r her o ran cael y gweithlu gofal addas i'r dyfodol wedi ei adnabod fel blaenoriaeth gennym fel awdurdod ers 2018, ond mae'r sefyllfa rydym yn ei wynebu rŵan o ran staff yn penderfynu gadael eu swyddi a methu denu staff newydd yn mynd a ni i fan gwahanol a phryderus iawn. Gyda'r farn ymysg nifer sy'n gweithio yn y maes fod yr her bresennol yn fwy dwys a phell gyrhaeddol na'r heriau staffio a wynebwyd yn ystod cyfnod Covid.

## 3 Y sefyllfa yn y maes Oedolion

3.1 Ar sail ein gwybodaeth ddiweddaraf mae 12% (113 swydd) o swyddi'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn wag, gyda rhai gwasanaethau yn cael eu heffeithio yn fwy nac eraill ac yn profi bylchau staffio mor uchel a 35%. Mae'r wybodaeth yma ar sail holl swyddi llawn amser a rhan amser yr Adran, ond yn eithrio swyddi achlysurol a hefyd y Gwasanaeth Gofal Cartref mewnol. Dylid nodi hefyd fod gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i wirio'r wybodaeth hwn a sefydlu

trefn ble gellid cadw golwg ar y sefyllfa yn rheolaidd. I bwrpas cymhariaeth gyffredinol adroddwyd yn sgil ymchwil diweddar fod bwlch staffio'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol ar draws Cymru a Lloegr yn 10%.

3.2 Mae'n darpariaethau gofal rheng flaen yn ddibynnol ar swyddi achlysurol ar gyfer cyflenwi yn lle staff cytundebol pan fyddent ar wyliau, hyfforddiant a salwch. Gwneir defnydd rheolaidd o staff achlysurol ar draws ein gwasanaethau ac rydym ar hyn o bryd yn ceisio mynd ati lle mae'n bosib i roi gwell sicrwydd i'r staff yma trwy sicrhau oriau gwaith rheolaidd iddynt. Ar yr un pryd gwyddwn hefyd ein bod angen cynyddu'r niferoedd sydd gennym o staff achlysurol ar draws ein gwasanaethau er mwyn ysgafnhau'r pwysau a'r dibyniaeth sydd ar weddill y gweithlu.

3.3 Eithrir y Gwasanaeth Gofal Cartref yn benodol oherwydd natur y gwasanaeth. Er fod gan staff y Gwasanaeth gytundebau parhaol sy'n nodi oriau cytundeb penodol, mae'r nifer sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn newid yn ddibynnol ar y galw sydd am ofal cartref ar draws ein cymunedau. Mae'r sefyllfa o ran recriwtio a chadw staff o fewn y gwasanaeth yn argyfyngus. Noder felly nad yw'r ffigwr o 12% chwaith yn cymryd i ystyriaeth y staff ychwanegol fyddai ei angen i ymateb i'r rhestr aros sydd gennym am ofal cartref ar draws y Sir.

3.4 Ar 7fed o Fedi, 2022 roedd gennym 106 o unigolion ar y rhestr aros am ofal cartref. Er bod y nifer sy'n aros am ofal cartref wastad yn newid, wrth gymharu'r sefyllfa a sut oedd pethau deunaw mis yn ôl mae'r nifer sy'n aros am ofal cartref ar draws y Sir wedi mwy na dyblu. O ran gallu cyfarch anghenion a chefnogi'r unigolion yma yn eu cartrefi mae'r angen i'r Gwasanaeth Gofal Cartref mewnol y Cyngor a darparwyr annibynnol y Sir benodi staff ychwanegol.

3.5 Mae rhestrau aros am wasanaeth yn bodoli mewn gwasanaethau eraill megis Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Noder na fyddai llenwi oll o'r swyddi gwag sydd gennym o fewn y gwasanaethau hyn o reidrwydd yn golygu ein bod mewn sefyllfa i ymateb yn llawn i'r galw.

3.6 Mae'r bylchau staffio sydd yn yr Adran o ran Gweithiwyr Cymdeithasol a Therapyddion Galwedigaethol yn cyfrannu at y nifer y trigolion sy'n aros am adolygiadau neu ymweliadau o'r newydd. Yn 2021 – 22 dim ond 55% o'n hadolygiadau gafodd eu gwneud yn amserol. Roedd hyn yn ddirywiad o'r sefyllfa yn 2020 – 21 (58%). Gwyddwn fod hyn, ynghyd a'r diffyg gofal sydd ar gael yn y gymuned, yn cyfrannu at ein gallu i ymateb yn briodol i sefyllfaoedd unigolion. Enghreifftiau o hyn yw unigolion sydd angen symud o gartref gofal preswyl i gartref sy'n cynnig gofal nyrsio / gofal nyrsio dementia, neu hwyluso trefniadau rhyddhau unigolion o'r ysbyty.

3.7 Mae lleihad wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf yn nifer y bobl sydd sy'n gweithio fel Gweithwyr Cymdeithasol yng Nghymru. Yn drawiadol gwelwyd gostyngiad o 42% yn nifer yr unigolion sydd eleni wedi gwneud cais i gymhwyso fel Gweithwyr Cymdeithasol ar draws Cymru o gymharu â sut oedd pethau yn ôl yn 2016. Mae'r nifer y Gweithwyr Cymdeithasol mewn perthynas â'r boblogaeth yn is yng Nghymru nac ydyw yn Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

3.8 Rydym mewn sefyllfa bellach felly ble rydym yn cystadlu gydag awdurdodau lleol eraill neu sefydliadau eraill y sector gyhoeddus o ran ceisio denu Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol a rolau penodol yn ogystal megis Swyddogion Sicrwydd Ansawdd. Credir hefyd fod natur y gystadleuaeth yn wahanol ac o bosib yn fwy yng ngogledd orllewin Cymru gyda'r angen dros ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg yn gwbl allweddol. Profir yn ogystal sefyllfaoedd o wahaniaethau mewn cyflog, gyda'r enghraifft amlycaf y ffaith fod cyflogau Therapyddion Galwedigaethol sy'n gweithio i'r Bwrdd Iechyd yn lleol yn uwch na swyddi cyfatebol mewn Awdurdodau Lleol. Yn ystod y cyfnod 01.04.21 hyd at 31.03.22 gwelwyd 9 aelod staff o'n timau gwaith cymdeithasol yn y maes oedolion yn gadael i fynd i weithio i awdurdod lleol arall, a 4 aelod arall o staff yn gadael i swyddi eraill y tu allan i'r sector.

3.9 Hysbysebion swyddi'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant rhwng y cyfnod 01.04.22 – 18.07.22

| **Gwasanaeth** | **Nifer hysbysebion** | **Canran yr ymgeiswyr fesul hysbyseb** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **0 cais** | **1 cais** | **2 gais** | **3 cais** | **4 cais** |
| **Swyddi darparu gofal rheng flaen** | 81 | 44% | 27% | 17% | 10% | 1% |
| **Swyddi gwaith cymdeithasol** | 29 | 34% | 31% | 24% | 7% | 3% |

3.10 Mae'r tabl uchod yn adlewyrchu'r sefyllfa heriol sydd ohoni i lenwi swyddi gwag yn y maes. Yn ddelfrydol anelir i gael cystadlaethau iach am swyddi ond gwelir ein bod yn cychwyn o fan heriol iawn gyda chyfran hynod uchel o'r hysbysebion ddim yn derbyn unrhyw gais o gwbl (44% a 34%). Gwelir hefyd cyn lleied o adegau sydd ble mae mwy na dau gais wedi ei gyflwyno. Dylid amlygu hefyd nad yw'r wybodaeth yn cynnwys sefyllfaoedd ble mae 'na fwy nac un swydd yn cael ei hysbysebu amdano o fewn yr un hysbyseb - mae'n debyg felly fod y gwir sefyllfa yn fwy dyrys.

3.11 Mae'r rhesymau pam fo unigolion yn penderfynu gadael eu swyddi neu pam nad ydym yn llwyddo i ddenu mwy o staff trwy recriwtio wrth reswm yn eang iawn, ond ceisir nodi isod y prif themâu y credir sy'n cyfrannu. Noder fod y wybodaeth yma yn ein cyrraedd o sgyrsiau anffurfiol gyda staff, yr hyn sy'n cael ei adrodd i'n rheolwyr, yn ogystal â chyfweliadau a gynhelir gyda staff pan yn gadael eu swyddi:

- Cyflogau ddim yn cael eu gweld yn ddigonol mewn perthynas â'r cyfrifoldebau
- Cyflogau mewn sectorau eraill yn talu'n gymharol well
- Cyflogau sefydliadau eraill o fewn y maes yn talu'n gymharol well megis y Bwrdd Iechyd.
- Effaith y pandemig ar y gweithlu o ran y blinder a phwysau gwaith, ac yn anffodus sy'n parhau.
- Costau byw, a chostau tanwydd yn benodol yn gwneud i unigolion ystyried manteision ac anfanteision swyddi penodol
- Disgwyliadau o swyddi gofal, yn enwedig swyddi darparu gofal rheng flaen, wedi codi wrth i anghenion ein poblogaeth ddwysau.
- Diffyg cydnabyddiaeth o werth swyddi yn y sector gofal
- Y tuedd cyffredinol a welwyd yn ystod y pandemig, ac sydd wedi parhau ers hynny, yw unigolion yn ail ystyried eu blaenoriaethau mewn perthynas â'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Er enghraifft pobl yn penderfynu newid gyrfa neu'n ymddeol yn gynt na hyn fwriadwyd yn wreiddiol.

## 4 Darparu Gwasanaethau Gofal Oedolion

4.1 Er bod y themâu sydd wedi eu nodi yn rhan 3.11 o'r adroddiad hwn yn berthnasol i wasanaethau darparu gofal rheng flaen, mae materion y dylid manylu ymhellach arnynt.

4.2 Y swyddi a ystyrir fel swyddi darparu gofal rheng flaen yw:

- Oll o'r swyddi a geir mewn Cartref Gofal – swyddi gofalu, arlwyo, glanhau a rheoli / arwain.

- Gofalwyr yn y gymuned a'u strwythurau cefnogol - staff y Gwasanaeth Gofal Cartref a Tai a Chefnogaeth yn bennaf.

- Gweithwyr Cefnogol sy’n cefnogi unigolion o fewn y Gwasanaethau Anableddau Dysgu a'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn bennaf.

4.3 Mae’r canfyddiad sydd o swyddi rheng flaen y maes gofal yn aml iawn yn gallu bod yn un negyddol ac yn anffodus ddim yn adlewyrchiad cywir o’r rôl. Mae’r swydd yn cael ei weld fel swydd sydd a’i bwrpas i gyflawni tasgau penodol megis gofal personol, ymolchi a thoiledu. Nid yw’r ddelwedd sydd yn bodoli yn anffodus yn adlewyrchu’r boddhad a geir o fod yn cefnogi ein trigolion i gyflawni’r hyn sy’n bwysig. Nid yw chwaith yn rhoi’r gydnabyddiaeth haeddiannol o’r arbenigedd ar sgiliau sydd ei angen ar gyfer gofalu am ein trigolion mwyaf bregus. Er yn gallu cyflawni tasgau tebyg iawn, mae swyddi gofal rheng flaen yn aml yn cael eu hystyried yn eilradd i swyddi cyfatebol yn y maes iechyd.

4.4 Ers blynyddoedd bellach rydym fel darparwr wedi gweld ein staff yn gyson yn cael eu denu i weithio i’r Bwrdd Iechyd er mwyn cael amodau a thelerau mwy ffafriol, megis graddfeydd cyflog uwch a chynnydd ar eu cyflog o fod yn gweithio ar benwythnosau. Ond erbyn hyn rydym hefyd yn gweld ein staff yn cael eu denu i weithio i ddarparwyr gofal annibynnol ar draws y Sir. Eleni, am y tro cyntaf, mae nifer o’r darparwyr hyn yn cynnig cyflogau uwch na’r hyn sy’n cael ei gynnig o fod yn gweithio i’r Cyngor. Ac er bod manteision ehangach o fod yn gweithio i’r Cyngor megis y cyfraniad pensiwn, yn wyneb y cynnydd yng nghostau byw mae’n bosib nad yw’r ffactorau eraill mor ddylanwadol ym mhenderfyniadau pobl wrth gymharu â’r cyflog a geir yr awr. Mae hon yn neges sy’n cael ei adrodd i ni pan fo staff yn gadael i fynd i weithio mewn swyddi eraill.

4.5 Ffactor adnabyddus arall y gwyddwn amdano yn y maes gofal ac iechyd yw bod penodiadau newydd yn aml iawn yn golygu penodi rhywun sy’n barod yn gweithio yn y maes. Ac felly, er efallai yn datrys problem neu’n llenwi bwlch mewn un lle, mae’n aml yn creu un arall ac yn symud y broblem. Gwyddwn felly fod angen ffocysu ymdrechion a buddsoddi er mwyn sicrhau ein bod yn gallu denu ystod ehangach o ymgeiswyr i swyddi yn y maes gofal yn y dyfodol.

4.6 Yn ogystal â’r gystadleuaeth anffodus yma o fewn y sector gofal ei hun mae’r cyfleoedd mewn sectorau eraill hefyd yn denu staff y maes gofal. Rydym yn gweld sectorau eraill megis manwerthu, hamdden a lletygarwch yn cynnig cyflogau cymharol uwch am swyddi sydd â chyfrifoldebau tipyn is na’r hyn sy’n ddisgwyliedig o’n staff gofal. Rhaid cydnabod wrth gwrs fod y sectorau hyn hefyd wedi ei chael hi’n gynyddol anodd i recriwtio gyda materion fel Brexit yn ymddangos yn ddylanwadol. Sefyllfa felly ble nad oes ganddynt ddewis ond cynnig cyflogau uwch er mwyn gallu denu ac yna gwelwn sgil effaith hynny wrth gwrs wedyn ar y sector gofal.

4.7 Wrth gystadlu gyda’r Bwrdd Iechyd neu sectorau eraill yn anffodus un o’r agweddau sydd yn parhau i fod angen sylw a buddsoddiad ar bob lefel yw’r angen i amlygu a ffurfioli llwybrau gyrfa posib yn y maes. Er bod enghreifftiau gwych yn bodoli credir fod lle i’w wneud yn fwy eglur i unigolion sy’n dechrau eu gyrfaoedd beth yw’r camau a’r llwybrau y gallent ddilyn o fewn y maes.

4.8 Mae’r cynnydd mewn costau byw yn effeithio ar bawb, ond yn benodol o ran y gweithlu gofal mae’r cynnydd sydd wedi bod yn ddiweddar mewn cost tanwydd wedi golygu ein bod wedi gweld gofalwyr cartref yn gadael eu swyddi gan ddatgan nad ydw’n gost effeithiol iddynt barhau yn eu swyddi. Mae gofalwyr cartref a gweithwyr cefnogol yn benodol yn gwbl ddibynnol ar roi tanwydd yn eu ceir ei hunain i wneud eu swyddi. Yn anffodus rydym wedi cael sawl enghraifft o unigolion yn gadael eu swyddi fel gofalydd cartref i fynd i weithio mewn cartref gofal neu gyflogwr y tu allan i’r maes gofal yn gyfan gwbl.

4.9 Mae sut rydym yn gofalu am drigolion wedi newid yn aruthrol dros y degawdau diwethaf. Mae anghenion yn fwy dwys ac felly mae disgwyl i’n staff faeddu ystod eang o sgiliau, o wybod sut i ddefnyddio offer arbenigol ar gyfer symud a thrin unigolion i fod yn gofalu a chefnogi unigolion

sydd â dementia. Disgwylir wrth gwrs i'r tueddiadau hyn ddwysau ymhellach wrth i'n poblogaeth barhau i heneiddio. Gwelwn hefyd sut mae'r cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd dros y blynyddoedd diwethaf wedi amlygu'r cyfleoedd i wneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau. Enghraifft o hyn yw'r trefniadau sydd mewn ar gyfer rhoi meddyginiaeth i drigolion. Law yn llaw a hyn, elfen sy'n cael ei hyrwyddo gennym er mwyn sicrhau ein bod wir yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig i unigolion yw sicrhau fod gan ein staff y lefel priodol o gyfrifoldeb er mwyn gallu gwneud penderfyniadau yn y fan a'r lle pe byddai angen.

4.10 O ystyried y ffactorau hyn sydd wedi newid a datblygu dros y blynyddoedd diweddar mae'r risgiau o bethau i fynd o'i le hefyd wedi cynyddu. Er bod mesurau i liniau'r risgiau megis cynyddu lefelau staffio, hyfforddiant arbenigol ayyb wedi cael ei roi mewn lle ni ellid osgoi'r ffaith fod y canlyniadau i'n gweithwyr yn gallu bod yn ddifrifol.

4.11 Rydym yn profi yn aml erbyn hyn nad oes gan staff yr awydd i gymryd y camau naturiol nesaf yn eu gyrfa wrth ymgeisio am swyddi uwch o fewn ein strwythurau. Nid yw'r manteision ariannol a'r datblygiad personol fyddent yn ei gael o gamu i'r swydd nesaf yn cael ei weld yn ddigonol gan nifer o fod yn cymharu â'r cyfrifoldebau ychwanegol a'r pwysau gwaith fyddai'n dod gyda'r rôl uwch. Mae rheolwyr ein cartrefi gofal er enghraifft yn adrodd fod staff yn fwy tebygol o fod yn gweithio mwy o oriau yn hytrach na chymryd rolau arweiniol sy'n talu'n fwy.

4.12 Mae'r ansicrwydd a'r ofn oedd yn bodoli ar ddechrau'r pandemig heb os wedi cael effaith ar ein gweithwyr rheng flaen oedd yn gorfod parhau i ofalu er gwaethaf yr amgylchiadau a'r risgiau oedd yn bodoli. Mewn ymchwil diweddar a edrychodd ar yr effaith gafodd Covid19 ar iechyd 24 o ofalwyr cartref yng Nghymru, cafodd 34% ohonynt ofal ar sail diagnosis iechyd meddwl yn ystod y cyfnod rhwng Chwefror a Mehefin 2021. Yn ogystal â'r straen yma, ers cyfnodau hir bellach mae'r bylchau staffio a'r prinder staff sydd wedi bod yn sigl trefniadau hunan ynysu a lefelau salwch Covid wedi golygu fod nifer sylweddol o'n staff wedi gwneud oriau cyson uwchlaw eu cytundebau. Mae staff wedi bod yn fodlon gwneud hynny er mwyn sicrhau fod lefelau digonol o staff ar gael i ofalu am ein trigolion. Mae'r blinder hwn dros gyfnod hir o amser heb os yn ffactor rydym yn ei weld sy'n cyfrannu at yr argyfwng sydd ohoni.

4.13 Ystyriaeth arall sy'n gallu cyfrannu at wneud recriwtio yn fwy heriol ydi'r ffaith fod trefniadau pendant a phwysig angen eu dilyn yn y maes gofal sy'n golygu nad yw unigolion yn aml yn gallu cychwyn yn ei swyddi yn syth. Yn yr un ffordd mae gofyn erbyn hyn hefyd i weithwyr rheng flaen y maes gofal i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru gan ymrwymo i'r disgwyliadau sydd o hynny. Er yn gam positif i gysoni a ffurfioli'r rôl mae'r ymrwymiad yn gallu cael effaith negyddol mewn rhai sefyllfaoedd – unigolion sydd efallai ddim ond a diddordeb gwneud ychydig o ofalu ar hyn o bryd. Mae hynny yn anffodus yn gwneud hi'n anoddach i unigolion ddechrau gofalu yn raddol a gweld os yw'r swydd yn rhywbeth y maent yn ei fwynhau cyn ymrwymo'n fwy. Agwedd arall sy'n cael ei adrodd gan reolwyr y maes ydi'r ffaith fod y gofyn diweddar hwn yn creu disgwyliad ychwanegol ar staff.

4.14 Rydym mewn sefyllfa i adrodd mewn manylder ar ein profiadau fel darparwr gofal mewnol ond yn y maes hwn rydym hefyd yn comisiynu'r sector annibynnol i ddarparu gofal ar ein rhan. Gwyddwn o'n trafodaethau cyson gyda darparwyr gofal yng Ngwynedd eu bod hwythau hefyd yn wynebu'r un heriau a nifer ohonynt bellach yn adrodd i ni nad ydynt erioed wedi gweld y sefyllfa gynddrwg. Er hyn gwyddwn hefyd fod rhai o'n darparwyr wedi gweld ychydig o lwyddiant wrth ddenu staff newydd i weithio iddynt, a hynny trwy gynnal ymgyrchoedd recriwtio lleol iawn a chodi eu graddfeydd cyflog i lefelau mwy cystadleuol.

## 5 Be sy'n cael ei wneud mewn ymateb i'r sefyllfa?

5.1 Mae'r Adran yn cynnal ymgyrchoedd recriwtio yn rheolaidd ac yn defnyddio amrywiol ddulliau i'w cynnal. Mae'r ymgyrchoedd wedi cael eu cynnal yn lleol iawn wrth dargedu ardaloedd a threfi penodol. Ar adegau eraill rydym wedi cynnal ymgyrchoedd mwy sirol eu natur sydd wedi eu plethu i'r ymdrechion cenedlaethol yr un pryd. Mae llwyddiant y digwyddiadau wedi amrywio.

5.2 Rydym, ar y cyd gyna'n partneriaid, yn gyson yn ceisio newid y ddelwedd sy'n bodoli o ran swyddi yn y maes gofal. Cymerir y cyfleoedd i geisio amlygu'r ystod eang o gyfleoedd sy'n bodoli, hyblygrwydd y cytundebau sydd ar gael a hefyd y buddiannau sydd i staff.

5.3 Mae'r gwaith sy'n mynd rhagddo o ran ceisio ymateb i'r sefyllfa sydd ohoni yn eang iawn ac mae cydweithio agos yn digwydd gydag amrywiaeth o bartneriaid yn ddibynnol ar hyn yr anelir i'w gyflawni - boed yn sefydliadau cenedlaethol neu'n fudiadau lleol iawn. Mae cydweithio agos hefyd yn digwydd ar draws awdurdodau lleol e.e. Cynhaliwyd gweithdai rhanbarthol i weithwyr cymdeithasol i ddeall yn well sut mae'r pandemig wedi effeithio ar eu ffordd o weithio gan geisio sefydlu be sydd angen newid er mwyn denu mwy o weithwyr i'r maes.

5.4 Un agwedd y dylid tynnu sylw ato yn benodol yw'r cydweithio sy'n mynd rhagddo gyda'n partneriaid i fod yn ceisio datblygu ymhellach y llwybrau gyrfa sydd ar gael yn y maes. Rydym wedi penodi swyddog ers Rhagfyr 2021 fod yn arwain ar yr agwedd hon a hefyd i gefnogi gyda'r rhaglen waith o ran cynnal digwyddiadau, marchnata mewn dulliau amrywiol, creu deunyddiau gwreiddiol a phwrpasol, ac adnabod cyfleodd i wella prosesau gwaith. Defnyddiwyd arian dros dro i ariannu'r swydd dan sylw, ond rydym heb os bellach yn gweld yr angen i sicrhau fod trefniant ariannu parhaol yn cael ei roi mewn lle.

5.5 Materion eraill sydd wedi bod yn cael sylw gennym yn fewnol yw ail sefydlu 'cyfweliadau gadael' pan fydd staff yn gadael eu swyddi yn y maes - mae hynny yn ein galluogi i ddeall yn well y rhesymau a'r ffactorau sy'n denu staff. Adolygwyd hefyd y broses o benodi staff newydd ac mae addasiadau wedi cael eu gwneud i symleiddio'r broses a'i chyflymu e.e. symleiddio'r ffurflen gais. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd o ran plethu cyrsiau myfyrwyr i anghenion byd gwaith y maes gofal, a gwella'r cyfleoedd profiad gwaith sy'n cael ei gynnig yn y maes.

5.6 Mae 'na gydnabyddiaeth yn genedlaethol fod prinder staff bellach wedi cyrraedd pwynt argyfyngus. Rydym yn ddiweddar wedi gweld ymdrechion yn cael ei wneud yn genedlaethol megis yr ymrwymiad i godi lefelau cyflog holl weithwyr gofal i'r Gwir Gyflog Byw o £9.90 yr awr. Gwelwyd yn ddiweddar hefyd gyfraniadau ariannol unwaith ac am byth yn cael eu gwneud i staff yn y maes gofal. Er yn eu croesawu, yn anffodus rhaid pwysleisio nad yw'r ymdrechion hyd yma wedi bod yn ddigonol a'u bod yn bell o'r nod ar gyfer gwneud y gwahaniaeth sydd ei angen. Ar nodyn addawol gellir adrodd ei fod yn debygol y bydd y cytundeb tal diweddaraf yn cael ei gytuno dros fisoedd yr Hydref eleni ar gyfer y flwyddyn 2022/23. Noder fod y cyflogwr wedi cynnig £1925 ar bob pwynt cyflog o fewn eu sefydliadau, sydd gyfystyr a 9.99% o gynnydd ar bwynt uchaf nifer o'n staff gofal rheng flaen, a 10.19% ar gyfer unigolion sydd ar y pwynt isaf (Isafswm cyflog felly o £10.75 yr awr). Ni fyddwn wedi gweld cynnydd o'r fath ar gyflogau ers tro.

5.7 Dylid nodi fod cyflogau yn y maes hwn yn cael ei gydnabod fel mater sydd angen sylw ar lefel Cymru a Prydain. Nid yw'r yw broblem felly'n un unigryw i Wynedd a dylid amlygu fod cydweithio a gwaith yn mynd rhagddo ar lefel Cymru i geisio mynd i'r afael a'r materion hyn.

5.8 Mae gwaith wedi dechrau yn fewnol yn ddiweddar i edrych ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau ein gweithwyr gofal ar draws amrywiol feysydd. Gwneir hynny ar sail yr angen i ystyried y newid sydd wedi bod yn sut mae gofal yn cael ei ddarparu dros y blynyddoedd diweddar, a hefyd sut yr

ydym yn gweld ein gwasanaethau yn datblygu ymhellach i'r dyfodol er lles ein trigolion. Mae'r broses hon felly o adolygu swydd disgrifiadau yn gallu arwain at gynnydd mewn graddfeydd cyflog.

5.9 Mae ymdrech gyson yn cael ei wneud gan dîm Rheoli'r Adran a'r Aelod Cabinet i sgwrsio gyda staff am y materion hyn, boed hynny wrth ymweld â'u lleoliad gwaith neu os ydynt yn gofyn yn benodol am sgwrs. Mae'r themâu a'r negeseuon yn gyson ar draws y Sir ac yn cael ei adlewyrchu yn yr adroddiad hwn.

5.10 Er bod 'na wahaniaethau yn sut mae Awdurdodau Lleol eraill yn darparu gwasanaethau gofal, gyda rhai ohonynt yn bennaf ddibynnol ar gomisiynu'r sector annibynnol, gellid adrodd o'r trafodaethau a'r cydweithio sy'n mynd rhagddynt fod awdurdodau eraill hefyd yn cael trafferthion cynyddol wrth recriwtio a chadw staff.

5.11 Amlygir yn yr adroddiad hwn fod y sefyllfa wedi gwaethygu dros y blynyddoedd diweddar, ac mae'n ymddangos nad yw'r sefyllfa debygol o wella'n fuan. Er y gwyddwn fod angen arweiniad ac ymyrraeth genedlaethol ar y mater yn ogystal, rhaid sicrhau ein bod fel awdurdod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i wella'r sefyllfa argyfyngus sydd ohoni erbyn hyn.

# ADRODDIAD I'R PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Medi , 2022 |
| **Teitl:** | Diweddariad ar y Gwasanaeth Ynni Newydd |
| **Pwrpas:** | Diweddaru'r Pwyllgor ar weithrediad y Gwasanaeth Ynni Newydd yn ogystal a'r gwaith Newid Hinsawdd |
| **Swyddog cyswllt:** | Carys Fôn Williams, Pennaeth Adran Tai ac Eiddo |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Craig ab Iago |

## 1. Cyflwyniad / Cefndir

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cynnig diweddariad ar y Gwasanaeth Ynni Newydd, gan fanylu ar yr hyn sydd wedi digwydd, ar y gweill ac wedi'i gynllunio ar gyfer y misoedd nesaf. Yn ogystal byddwn yn adrodd ar y Cynlluniau Rheoli Carbon a sut mae hwn yn plethu fewn i'r gwaith Newid Hinsawdd a'r argyfwng hinsawdd mae'r Cyngor wedi ymrwymo iddo.

1.2 Yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr, 2020, cymeradwyodd y Cabinet **Gynllun Gweithredu Tai 2020/21-2026/27** – Cynllun gwerth £77m sydd ag amryw o brosiectau gyda un yn benodol yn ymwneud a chadwraeth Ynni yn y sector ddomestig:

- Sefydlu gwasanaeth Cadwraeth Ynni newydd i berchnogion tai

1.3 Mae'r cyngor ers 2010 wedi bod yn gweithredu ar leihau carbon yn ein adeiladau gweithredol ond dyma'r tro cyntaf i ni edrych ar ddatgarboneiddio mewn tai preifat. Byddwn yn ehangu ar y gwaith lleihau carbon yn ail rhan o'r adroddiad.

1.4 Nod y Cynllun Gweithredu Tai yw "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd". Wrth gwrs rhan o hyn yw sicrhau bod y Tai yn cael eu cynhesu mor effeithiol a phosib ar gost sy'n fforddiadwy.

**Rhan 1 – Gwasanaeth Ynni Newydd**

**2. Golwg ar brosiectau a meysydd unigol**

| Maes/ prosiect: | Datgarboneiddio Tai | Cyfeirnod | |
|---|---|---|---|

**2.1. Cefndir**

2.1.1. Mae stoc tai Gwynedd ymysg y gwaethaf o ran perfformiad ynni ym Mhrydain.


Fe welwch o'r graff a'r tabl yn ffigwr 1, fod y rhan helaethaf o stoc tai'r sir yn y categori EPC D neu'n is a fod y rhan fwyaf wedi eu hadeiladu cyn 1900. Mae'n drawiadol mai dim ond 25 tŷ sydd yng Ngwynedd sydd gyda EPC A.

EPC (Energy Performance Certificate) [Standard Assessment Procedure - GOV.UK (www.gov.uk)] yw'r fethodoleg sy'n cael ei ddefnyddio yn y DU i fesur effeithlonrwydd tai o safbwynt cadwraeth ynni.

Mae'n ofynnol ers 2015 fod pob eiddo RSL (eiddo rhent cymdeithasol) yn cyrraedd safon cyfystyr a EPC D.

Yn y sector rent breifat mae'n ofynnol ers 2020 fod eiddo yn cyrraedd safon o EPC E


Ffigwr 1




CURRENT_ENERGY_RATI...

All

| CURRENT_ENERGY_RATING | Count of CONSTRUCTION_AGE_BAND |
|---|---|
| A | 25 |
| B | 460 |
| C | 6718 |
| D | 13051 |
| E | 10014 |
| F | 6893 |
| G | 3623 |
| **Total** | **40784** |



2.1.2. Yn hanesyddol mae tri cynllun wedi bod ar gael i ddatgarboneiddio a chyfarch tlodi tanwydd sef cynllun Nyth, Eco ag Arbed.

2.1.3. **Nyth -** Hafan - Nyth Cymru - nyth.llyw.cymru Mae Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru Nyth yn darparu cymorth i wneud gwelliannau effeithlonrwydd ynni i gartrefi incwm isel ledled Cymru. Gweler atodiad 1 yng nghefn yr adroddiad ar gyfer ffigyrau cyfredol Nyth. Mae'n bwysig nodi yma fod tan hawlio budd daliadau prawf modd yn rwystr i'r cynllun yma. Gall bod yn gymwys am geiniog o ostyngiad treth cyngor olygu fod trigolyn yn gymwys am welliannau sylweddol.

2.1.4. **ECO** Energy Company Obligation (ECO) | Ofgem - Cynllun Llywodraeth San Steffan yw ECO.

Rhennir Eco yn ddau ran eleni – 50% drwy 'HHCRO' (Home Heating Cost Reduction Obligation) a 50% drwy 'ECO LA Flex' . Darperir gwelliannau ECO LA Flex gan gwmnïau preifat sydd wedi eu cymeradwyo gan Cyngor Gwynedd. Unig rôl y cyngor yw gwirio dogfennau a chymeradwyo ceisiadau. Mae cynllun Eco LA Flex 3 wedi darfod, ac mae'r bedwaredd wedd yn cychwyn yn Hydref 2022.

2.1.5. **Arbed** Get help with energy efficiency (households) | GOV.WALES Roedd cynllun Arbed Am Byth gan Lywodraeth Cymru yn gynllun tlodi tanwydd/datgarboneiddio strategol ar sail LSOA/Wardiau.

Nid yw Arbed bellach yn bodoli. Disgwylir cyhoeddiad gan LLC yn yr Hydref am beth ddaw i'w ddilyn. Roedd Arbed yn canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd ynni preswylwyr sy'n byw mewn tlodi tanwydd difrifol, yn aml mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Nod Arbed oedd i leihau ôl troed carbon stoc tai presennol Cymru ac wrth wneud hynny, helpu i ddarparu gwytnwch i aelwydydd yn erbyn costau ynni cynyddol. Dyma rhai ardaloedd lle bu i Arbed gyfarch yr angen yn Ngwynedd:

Arbed 1 – Deiniolen, Gwynedd – Arbed 2 Carmel a Fron, Gwynedd. Arbed 3 Tanygrisiau, Gwynedd. Roedd cynllun Arbed 3 wedi cychwyn ar ymgysylltu a thrigolion yn Nhalysarn ac Aberdaron yng Ngwynedd, eiddo gydag EPC E, F, neu G. Ond yn fyr rybudd roedd Llywodraeth Cymru wedi penderfynu dod a'r cynllun Arbed 3 i ben.

## 2.2. Beth sydd wedi digwydd / ar y gweill

2.2.1. Ers cychwyn y gwasanaeth Ynni newydd ym Mai 2021 yr ydym wedi penodi dau Swyddog Tlodi Tanwydd i ymgymryd a'r gwaith o gyfeirio at y cynlluniau sydd ar gael. Mae hyn oll law yn llaw a gwaith adrannau eraill or cyngor sy'n cyfarch heriau yr argyfwng costau byw.

2.2.2. mae'r canlynol wedi cael ei gyflawni yng Ngwynedd.

- 349 gyfeiriadau ECO 3 21/22
- 257 o gyfeiriadau i Nyth yn Ngwynedd 21/22 (gweler atodiad 1)
- 47 o dai yn Tanygrisiau wedi cael mesurau o dan Arbed 3 cyn i'r cynllun orffen yn Tachwedd 2021

Gwariant cyfartalog fesul eiddo drwy gynllun Nyth yw £5,000 – does dim data cyfredol ar gyfer cynllun ECO

2.2.3. ECO 3 - fel y gwelir uchod roedd 349 o gyfeiriadau. Does dim modd cadarnhau yn union faint o'r cyfeiriadau y gweithredwyd arnynt.

2.2.4. ECO 4 – Mae cyllid o 4 Biliwn ar gyfer ECO 4 ar draws y DU rhwng 2022 a 2026.

Isod, rhestrir rhywfaint o'r cynnydd 'dydd i ddydd' nad ydynt yn ran o gynllun penodol.

2.2.5. Ychwanegu data 'approved applications' ECO i'n llif gwaith. Cais wedi ei wneud i'r cwmnïau sydd ar y fframwaith ECO i rannu data EPR (Energy Performance Report) sydd i bob pwrpas yn EPC heb ei gofnodi ar system y Llywodraeth.

2.2.6. **Astudiaeth Dichonoldeb Tanygrisiau**

Prosiect i ymchwilio cyfleoedd i gyfuno uwchraddio ffabrig adeiladau a defnyddio trydan a gynhyrchir yn lleol i fwydo rhwydwaith gwres a datrysiadau gwres ASHP unigol. Hefyd edrych ar y posibiliadau o gyflenwi diwydiant lleol.

Mae'n bartneriaeth sy'n cael ei arwain gan Wynedd yn cynnwys Adra, Grŵp Cynefin, Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, Y Dref Werdd ac Ynni Twrog. Manteision dulliau partneriaeth amlsector leol fel hyn yw'r wybodaeth leol i wireddu cynlluniau a thargedau ynni cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Yn ystod Hydref 2021 ddaru'r bartneriaeth gomisiynu ymgynghorwr - Sustainable Energy (SE) i gynnal astudiaeth dichonoldeb ar y ffordd orau i ddatgarboneiddio'r pentref gyda'r bwriad o ddefnyddio hyn fel peilot ar gyfer ardaloedd tebyg. Canlyniad yr astudiaeth oedd mai pympiau gwres unigol oedd yr opsiwn ffafriol ond fe adnabuwyd bod rhwystrau mawr o safbwynt cael trydan rhatach oddi wrth ffynonellau lleol.

Felly yr ydym wedi gofyn wrth Uchelgais Gogledd Cymru edrych ym mhellach i fewn i'r elfen tlodi tanwydd yn y gwaith Sustem Ynni Lleol Clyfar. Mae esiamplau cynnar o rwydweithiau gwres lleol ac ynni lleol ledled y DU. Dal i gropian mae'r sector, ond mae gobaith y bydd twf.

2.2.7. Astudiaeth Dichonoldeb Uchelgais Gogledd Cymru (UGC)

Mae UGC wedi llwyddo i sicrhau £380,000 o Gronfa Adnewyddu Gymunedol Llywodraeth y DU i gynnal Astudiaethau Dichonoldeb o System Ynni Lleol Clyfar ar gyfer nifer o Awdurdodau Lleol gan gynnwys Cyngor Gwynedd.


Mae EA Technology wedi'u penodi gan UGC i nodi'r cyfleoedd a dangos yr achos dros greu System Ynni Lleol Clyfar yng Ngwynedd a'r ardal. Nod Systemau Ynni Lleol Clyfar yw cyfateb cyflenwad a galw am ynni o fewn ardal ddiffiniedig er budd ystod o randdeilliaid.

Un o'r prosiectau sydd wedi ei adnabod yw Cynllun Gwres Tanygrisiau a'r gobaith yw adeiladu ar waith SE gyda'r nod o ddarganfod ffordd o gael trydan lleol yn rhatach i bobl leol.

| |
|---|
| Nid yw'r gwaith yma wedi adrodd yn ôl eto ond y gobaith yw bydd hynny'n digwydd yn ystod yr Hydref eleni. |

| **Maes/prosiect:** | **Ymgynghori gyda'r cyhoedd ar dlodi tanwydd** | **Cyfeirnod** | |
|---|---|---|---|
| **2.3 Cefndir**<br>Mae Gwynedd yn un o'r ardaloedd gyda'r lefel tlodi tanwydd mwyaf yng Nghymru fel sydd wedi ei ddangos yn y map islaw. Fe nodwch fod y map sydd wedi ei gymryd o wefan Llywodraeth Cymru yn ddata hen ac felly mae'r sefyllfa yn amlwg wedi gwaethygu ers hynny. Ac mae'r cynnydd ym miliau pawb gaeaf yma yn peri pryder mawr ac yn atgyfnerthu pwrpas ein gwaith. | | | |

Ffigwr 2




**2.4. Beth sydd wedi digwydd / ar y gweill**

2.4.1. Sefydlu cyfrif Discretionary Assistance Fund (DAF) | GOV.WALES (prif dalebau argyfwng tanwydd LLC – yn bodoli eisoes)

2.4.2. Sefydlu cyfrif Fuel Bank Foundation Home | Fuel Bank Foundation (arian £4m newydd LLC ar gyfer cwsmeriaid sydd hefo mesuryddion rhagdalu)

2.4.3. Sefydlu cyfrif MyTurn2us - Turn2us (Gwirio budd-daliadau yn sydyn er mwyn sicrhau cymhwyster ECO/Nyth)

2.4.4. Sefydlu cyfrif Charis Grant [Grant Administration Services | Fund Administration Services | Charis (charisgrants.com)](https://charisgrants.com) (opsiwn 'last resort' ar gyfer talebau ynni i drigolion sy'n defnyddio mesuryddion rhagdalu (Mae 12,225 yn Ngwynedd ar ffigyrau 2017 )

2.4.5. Sefydlu cyfrif Power BI. Gellir defnyddio Power BI i ddadansoddi, a chroesgyfeirio ystod eang o ddata, megis data EPC's, LSOA, hawlwyr gostyngiad treth cyngor Ayyb. Arf pwerus i amlygu'r ffactorau sy'n cyfrannu at TT

2.4.6. Trefnu cyfarfod yn Galeri i'r rhan ddeilliad sy'n gweithredu ym maes TT. Yn bresennol roedd CAB, Wardeiniaid Ynni (RSL's) Wardeiniaid Ynni Sero Net, Groundworks, BCUHB

2.4.7. Ymweliad a Banc Bwyd Bermo. Rhannwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y talebau arfaethedig ynghyd a chynnig cymorth digidol i roi'r cyfan ar waith erbyn yr Hydref.

2.4.8. Ymchwilio meddalwedd - ceisio darganfod os oes system ar gael byddai'n diwallu anghenion ar draws y sector, ac yn ei gwneud hi'n bosib cydweithio a phartneriaid allanol, wrth gydymffurfio a rheolau GDPR

2.4.9. Sefydlu cysylltiadau cychwynnol gyda hybiau yng Ngwynedd. Euthum ar ymweliad Dref Werdd er mwyn sefydlu a chadarnhau'r broses o gyd-weithio.

2.4.10. Cyfarfod gyda Bill Hamilton (UK stakeholder relations MAGNOX) Amlygu sefyllfa TT y sir gan ei atgoffa o'r 'strapline' 'Being a Good Neighbour' sydd ynghlwm a'r gronfa socio-economaidd datgomisiynu. Mae'r NDA/Magnox ynghanol ailstrwythuro/ail-frandio. Byddem yn paratoi adroddiadau ar ardaloedd 'area specific' drwy ddefnyddio Power BI ar ardal.

2.4.11. Cyfarfodydd rheolaidd gyda Dylan Mclennan o NYTH (rheolwr datblygu partneriaethau) - ail sefydlu'r 'Partner Portal' - ffurflen We gyfeirio 'fast track' - sefydlu fod cyfeiriadau o CG wedi eu gwirio o ran cymhwysedd cyn cyrraedd canolfan alwadau NYTH yn y gobaith o gyflymu'r broses.

2.4.12. Sicrhau Sêt ar Grŵp traws pleidiol Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cymru trwy NEA - gan amlaf mae gweinidog yn bresennol, felly cyfle da i adrodd yn ôl i LLC ar y sefyllfa yng Ngwynedd.

2.4.13. Gweithio ar ffurflen Pro Forma 3rd 'party consent' er mwyn trafod ar ran cwsmeriaid bregus hefo cyflenwyr ynni.

2.4.14. Cyflwyniad i gyfarfod misol CAB hefo Tal Michael. Cyflwyno ein gweledigaeth. Trafodaethau pellach hefo CAB yn ganolog am fynediad prawf i system

2.4.15. Mapio galluoedd sy'n cyfarch sefyllfa Tlodi Tanwydd ar draws y sir - Trydedd Sector / Statudol. Excel wedi ei boblogi (gweler atodlen) bydd angen diweddaru ail edrych ar hyn yn gyson er mwyn cefnogi hyfforddiant neu wybodaeth bellach i'r partneriaid.

2.4.16. Gwahoddiad i fynychu Grŵp llywio Wardeiniaid Ynni (drwy wahoddiad Ieuan Davies Grŵp Cynefin)

2.4.17. Parhau gyda'r gwaith ar brosiect Tanygrisiau, yn bennaf ceisio cadw'r ffocws ar fuddion uniongyrchol i'r trigolion. Am geisio help Fflur Lawton (Smart Energy GB) i weld os oes rôl strategol iddyn nhw helpu i gynyddu'r nifer o fesuryddion SMETS2 yn yr ardal, ac i leddfu ofnau trigolion o'r dechnoleg.

2.4.18. Rhannu rhai canfyddiadau/ystadegau hefo ymchwilydd Liz Saville Roberts wedi iddi anfon cais atom – Power BI yn ddefnyddiol i greu adroddiadau 'hyper-lleol' o sefyllfa TT mewn cymunedau penodol.

2.4.19. Rhannu ystadegau Power BI hefo CAB – CAB a diddordeb yn y data ar gyfer eu gwaith ymgyrchu/lobio.

2.4.20. Mae 12,225 o fesuryddion rhagdalu yng sydd Ngwynedd, sy'n nifer uchel. Mae gwaith i'w wneud i ddarbwyllo trigolion o fuddion 'Mesuryddion Clyfar' – Bydd cydweithio hefo Fflur Lawton yn ran pwysig o'r gwaith yma.

2.4.21. Paratoi i osod data cod post aelwydydd Gostyngiad Treth Cyngor ar Power BI er mwyn croes wirio CTR ag EPC's isel.

2.4.22. Cyfarfod wedi ei drefnu hefo Fflur Lawton – Smart Energy GB

2.4.23. Cyfarfod wedi ei drefnu gyda'r gweithwyr cefnogaeth tenantiaeth.

**2.5. Beth yw'r camau nesaf**

2.5.1. Mae cyfnod prysur wedi bod o sefydlu a gosod gweithdrefnau yn eu lle. Mae cymaint yn y fantol gan fod sawl cynllun yn ddibynnol ar gyfeiriad y Llywodraeth yn San Steffan. Pe bai y syniad o rewi biliau ynni yn cael ei weithredu, byddai'n caniatáu dipyn o ryddhad i ni fel tîm, ond mae'r dasg deublyg o ddatgarboneiddio yn y tymor hir, ynghyd a datrysiadau cynaliadwy i dlodi tanwydd yn y tymor byr dasg enfawr.

Roedd yr adborth o'r gynhadledd gyntaf ar dlodi tanwydd yn y Galeri yn galonogol :-

**Sandra Kargin, Warden Ynni Grŵp Cynefin:** "Roedd y gynhadledd yn gyffrous. Roedd hefyd yn rhyddhad nad ydym ni fel Wardeiniaid yn 'mynd ar ein pennau ein hunain' yn y gaeaf hwn o dlodi tanwydd difrifol. Bydd cael cefnogaeth gan bobl eraill sy'n gweithio yn y maes hwn yn ein helpu'n fawr i gynorthwyo'r rhai mewn angen."

Ein bwriad yw datblygu cyfres o ddigwyddiadau tebyg, ac i roi cylchdaith rheolaidd o ymweliadau a'r hybiau cymunedol ar waith er mwyn rhaeadru ymarferion da, a chylchredeg gwybodaeth am beth bynnag fydd ar gael – mae hyn yn newid yn ddyddiol ar hyn o bryd.

Mi fydd cydweithio gyda'r hybiau cymunedol sydd wedi eu sefydlu yn ystod Covid yn greiddiol i'r gwaith, ynghyd a grymuso cymunedau i adnabod cyfleon. Cyn y gwladoli mawr ym 1947 drwy'r 'Electricity Act' roedd mwy o gwmnïau cynhyrchu ynni yng Ngogledd Cymru 'per capita' na unman arall yn y DU – efallai mai dyna fydd y cyfeiriad yn y pendraw, troi ein dwr i'n melinau ein hunain.

**Rhan 2 – Cynllun Rheoli Carbon**

| Maes/ prosiect: | Cynllun Rheoli Carbon | Cyfeirnod | |
|---|---|---|---|
| **2.6. Cefndir** | | | |

2.6.1. Ffurfiodd Cyngor Gwynedd bartneriaeth gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon yn 2009, ac o ganlyniad mae dau gynllun Rheoli Carbon wedi eu cymeradwyo.

2.6.2. Roedd y Cynlluniau Rheoli Carbon (CRHC) yn gynlluniau strategol cynhwysfawr oedd yn amlinellu:

- Perfformiad carbon Cyngor Gwynedd yn y flwyddyn waelodlin o 2005/6
- Adnabod cyfleoedd gwella a lleihau carbon
- Darparu argymhellion i wella a lleihau carbon
- Gosod targedau lleihau carbon

2.6.3. Yn 2005/6 roedd yr allyriadau carbon o adeiladau, goleuadau stryd, gwastraff, trafnidiaeth fflyd a busnes yn 31,155tCO2.

2.6.4. Ymrwymodd y cyngor i leihau allyriadau carbon o 40% erbyn 2021 o'i gymharu gyda data'r flwyddyn gwaelodlin.

2.6.5. Roedd y cynllun yn cynnwys nifer o brosiectau gan gynnwys inswleiddio, uwchraddio bwyleri a goleuadau mewn adeiladau, uwchraddio rheolyddion gwresogi, newid goleuadau stryd i lampau LED, defnyddio cerbydau mwy effeithlon lleihau ein gwastraff i dirlenwi.

**2.7. Beth sydd wedi digwydd /ar y gweill**

2.7.1. Mae'r tabl isod yn dangos bod y Cyngor wedi rhagori ar ei darged yn gynharach na'r disgwyl.

Tabl 1

| | Goleuadau Stryd | Fflyd | Teithio Busnes | Gwastraff | Adeiladau a PV | Cyfanswm Allyriadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Allyriadau C02 2005/06 | 3,899,302 | 5,324,520 | 2,095,068 | 929,760 | 18,905,843 | 31,154,493 |
| Allyriadau CO2 2019 | 926,462 | 4,116,803 | 1,963,406 | 403,290 | 9,231,780 | 16,641,741 |
| **% newid o'r waelodlin - 2019** | -76.2 | -22.7 | -6.3 | -56.6 | -51.2 | -46.6 |
| Allyriadau CO2 2020* | 766,388 | 3,424,877 | 879,266 | 413,373 | 7,581,552 | 13,003,324 |
| **% newid o'r waelodlin - 2020** | -80.3 | -35.7 | -58.0 | -55.5 | -59.9 | -58.3 |

2.7.2. Wedi i'r Cyngor ddatgan Argyfwng Hinsawdd a gosod targed o Sero-Net erbyn 2030, penodwyd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (WGES) i asesu'r cyfleoedd allweddol i leihau carbon ar draws ei ystâd.

2.7.3. Cynhaliwyd adolygiad pen desg o'r arferion rheoli ynni presennol ynghyd â dadansoddiad meintiol o effeithlonrwydd yr adeiladau hynny a ddefnyddir gan Gyngor Gwynedd. Nodwyd cyfleoedd arbed ynni penodol.. Mae atodiad 2 yn rhestru'r prosiectau sydd wedi eu hadnabod.

2.7.4. Mae'r rhestr isod yn ehangu ar bob mesur:

- Gwell M&T - mae Monitro a Thargedu yn mesur y tanwydd ffosil fesul hanner awr a'r data trydan sy'n defnyddio Meddalwedd Rheoli Ynni. Mae hyn yn galluogi i'r tîm ynni adnabod gwastraff yn sydyn ac yn effeithlon.

  Mae'r arbedion a ddyfynnwyd yn gysylltiedig â gwell defnydd o'r feddalwedd, staff yn bod yn rhagweithiol, dilyn polisïau yn ychwanegol at fabwysiadu'r "rhyngrwyd o bethau" ble fo offer yn cael ei reoli drwy'r rhwydwaith.
- Gwelliannau i Ffabrig Adeilad - mae hyn yn cynnwys insiwleiddio, atal drafft ac ati, mae llawer o hyn wedi ei wneud eisoes a dyma pam fod y costau yn sylweddol.
- Ehangu PV ymhellach - mae PV neu Baneli Ffotofoltaig yn cynhyrchu trydan ac ar gyfer yr astudiaeth hon rydym wedi archwilio adeiladau gyda'r rhain yn ogystal â phyrth ceir a ffermydd solar.
- Pympiau Gwres - mae pwmp gwres yn cynhesu adeilad drwy drosglwyddo ynni thermol o ofod oerach (aer neu ddaear) i ofod cynhesach (adeilad) gan ddefnyddio'r cylch oergell. Maent yn rhedeg ar drydan ac felly ar hyn o bryd maent yn ddrutach i'w rhedeg na dulliau gwresogi sy'n defnyddio ffosiliau tanwydd confensiynol ac yn gollwng mwy o garbon. Felly, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i gyflwyno'r dechnoleg fel yr awgrymwyd.
- Ffannau EC - mae ffannau cymudo electronig yn rhedeg ar gerrynt DC yn hytrach na AC ac yn cael eu rheoli'n ddigidol sy'n golygu gweithrediad mwy effeithlon a thawelach.
- Rheoliadau Ystafell - mae technoleg ddiwifr yn caniatáu rheoli rheiddiaduron unigol heb gost ddrud gwifro. Bydd hyn yn galluogi i ystafelloedd gael eu gwresogi ar wahanol dymheredd a hefyd i ddiffodd y gwres pan fo'r ystafell yn wag.
- Goleuadau arbenigol - mae goleuadau LED wedi gwella fel eu bod yn awr yn addas i'w defnyddio mewn safleoedd fel neuaddau pyllau nofio a meysydd chwarae yn yr awyr agored. Mae gofyn dylunio'n ofalus yn enwedig o ran diogelwch mewn neuaddau pyllau nofio ble fo'n rhaid i achubwyr bywyd weld y pwll yn glir.

2.7.5. Bydd y cynlluniau uchod yn rhan o gyfres o brosiectau bydd yn cael eu cyflwyno i'r Panel Newid Hinsawdd ar gyfer derbyn sêl bendith.

2.7.6. Yn ogystal, mae'r Tîm wedi adnabod prosiectau ychwanegol, megis:

- Ehangu ar ein systemau BEMS (Building Energy Management System), sef systemau rheoli gwres ac ati o bell gyda'r rhyngrwyd. Y tueddiad yw ein bod yn gweld cydberthynas rhwng safleoedd sy'n gwastraffu ynni a safleoedd sy'n ddibynnol ar reolaeth leol o wresogi, e.e.gwres ymlaen yn ystod gwyliau

- Defnyddio technoleg “rhyngrwyd o bethau” i fonitro safleoedd sy’n defnyddio LPG neu olew ar gyfer gwresogi. Yn hanesyddol, nid yw'r rhain wedi bod yn cael eu monitro mor drylwyr gan nad oedd hi’n gost effeithiol i gael y data ‘hanner-awrol’ oherwydd costau refeniw aruthrol ynghlwm. Trwy weithio gyda’r Adran TG mae nawr yn bosib i ni gasglu a defnyddio’r data yma heb gostau refeniw (ond bydd costau cyfalaf ynghlwm â’r gwaith gosod yn y man cychwyn.
- Uchafu gwerth carbon y rhaglen pwyntiau gwefru cyhoeddus i'r cyngor. Trwy arwain ar y rhaglen uchod yn y gorffennol, mae’r Tîm wedi sicrhau bod y pwyntiau yn cael eu gosod yn y modd mwyaf buddiol i'r Cyngor a’r cyhoedd o safbwynt carbon. Yn benodol, ble yn bosib, mae’r gosodiadau wedi eu dylunio i gysylltu i adeiladau sy’n bodoli’n barod. Yn ogystal â lleihau costau refeniw, bydd hyn yn ein galluogi i uchafu maint arfaethedig y systemau solar ar eu toeau a defnyddio’r trydan ychwanegol a gynhyrchir i wefru’r ceir yn hytrach na’i “golli” i’r grid. Sgil effaith hyn yw ehangu terfyn system garbon y Cyngor. Yn ogystal, mae’n cryfhau’r achos busnes ariannol oherwydd bydd modd gwerthu’r trydan a gynhyrchir yn ddigost ymlaen am elw sylweddol. Ond dylid nodi bod cyflawni’r prosiectau yma yn gadael bwlch sylweddol ar ein siwrne o gyrraedd sero. Fel dangosir yn atodiad 3 hyd yn oed os yw bob prosiect WGES yn cael ei wireddu (fyddai’n arbed bron i 3,000 tunnell) mae’n golygu bwlch ar yr ochr adeiladau o dros 6,000 tunnell. Mae hyn wrth gwrs yn dangos pa mor anodd yw lleihau carbon yn y maes adeiladau gan ein bod eisoes wedi lleihau ein hallyriadau o bron i 60%.

2.7.7. Rydym hefyd wedi rhestru'r asedau tir a fedrai roi lle i ffermydd solar yn dilyn adolygiad asedau tir (atodiad 4). Mae effaith carbon o 10,201tCO2e mewn gwirionedd yn golygu y byddai asedau'r Cyngor yn rhagori ar y bwlch i darged net-sero a bod yn garbon bositif o 3,934tCO2e pe byddai pob fferm yn cael eu datblygu. I roi hyn mewn cyd-destun, roedd yr allyriadau carbon o ganlyniad i fflyd y Cyngor a'r gweithrediadau teithio busnes yn 2019 yn 6,080tCO2e (ffactor carbon 2019).

2.7.7..1. Mae’n bosib datblygu ffermydd solar, a gallai'r hyn a gynhyrchir ganddynt unioni ein hallyriadau, ond mae cost gysylltiedig sylweddol.

2.7.7..2. Ar hyn o bryd mae'r costau yma ar lefel uchel gan fod cael costau cywir yn golygu bod angen cais ffurfiol gyda chost hyn fel arfer oddeutu £4,000 ar gyfer bob safle.

2.7.7..3. Ymhellach, oherwydd rheolau cyfredol ar adrodd am garbon, hyd yn oed pe byddai'r ffermydd hyn yn cael eu datblygu ni fedrwn ddyrannu'r arbedion carbon yma os yw'r trydan yn cael ei allfudo i'r grid. Yn y sefyllfa yma byddai'n cael ei gynnwys yn y gymysgfa ynni cyffredinol gaiff ei hadlewyrchu yn y ffactorau carbon cenedlaethol.

2.7.7..4. Er mwyn i Gyngor Gwynedd fanteisio o'r carbon byddai angen i'r hyn a gynhyrchir yn y safleoedd gael ei ddefnyddio ar y safle neu drwy drefniant gwifrau preifat. Efallai y gallai Safle Gwastraff Cilgwyn gynnig yr opsiwn yma ond mae yn annhebygol yn y lleoliadau eraill.

2.7.7..5. Felly am y tro nid yw’n edrych fel bod modd lleihau ein hallyriadau yn y ffordd yma.

2.7.8. Yn sgil y cynnydd sylweddol yn y costau ynni sy’n cael eu teimlo ar draws y sir, mae hi nawr yn bwysicach nag erioed i gyflawni prosiectau lleihau carbon, ac i sicrhau bod ein hadeiladau yn cael eu rheoli mor effeithiol â phosib.

2.7.9. Gwaith M&T dydd i ddydd - yn dilyn y gwaith sylweddol sydd wedi ei gyflawni i leihau ein hallyriadau mae angen sicrhau bod y lleihad yma’n barhaol. Mae yna dueddiad dros amser i lithro’n ôl, boed hynny drwy offer yn torri neu fel sy’n digwydd rhan amlaf, offer yn cael eu gadael ymlaen. Dyna pam mae gwaith Monitro a Thargedu (M&T) yn holl bwysig.

2.7.10. Yn ddiweddar rydym wedi uwchraddio ein meddalwedd M&T, sef SystemsLink. Drwy uwchraddio SystemsLink rydym wedi gallu cyfuno’r feddalwedd gyda’n mesuryddion clyfar sydd yn cofnodi defnydd pob hanner awr. Yn benodol rydym wedi ychwanegu SmartSpaces ar ein meddalwedd Systemslink, sydd yn ein hysbysu os oes unrhyw wastraff ar ein safleoedd yn syth. Yn y gorffennol, roedd gwastraff yn gallu parhau am amser hirfaith, gydag ysgolion yn troi gwres ymlaen ar gyfer eisteddfod ysgol, cyngerdd neu ar ddydd Sadwrn ac yn anghofio amdano yn glasur. Arwyddocâd hyn yw ers uwchraddio ein meddalwedd gyda SmartSpaces, rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol mewn gwastraff nwy ar ein safleoedd, ac yn sicr wedi gallu gweithredu llawer cynt ‘na’r gorffennol.

2.7.11. Mae’n bwysig fod rheolwyr safle ein hadeiladau a staff y cyngor yn cydweithio gyda ni ac ar yr un donfedd er mwyn lleihau ein hallyriadau a gwneud cynnydd ar ein targed o Net Sero erbyn 2030. Ni ellir y tîm ynni gyflawni’r dasg o gyrraedd ein targedau heb gydweithrediad gan rheolwyr safle a staff y cyngor. Mae’r elfen o newid ymddygiad yn hollbwysig yma a bod yn fwy gwyliadwrus gyda defnydd ynni. Trwy fod yn rhagweithiol a sicrhau fod y pethau bychain, megis troi goleuadau i ffwrdd pan nad oes angen, troi offer i ffwrdd a mwy, gall hyn gael effaith enfawr nid yn unig ar ôl troed carbon y Cyngor, ond ôl troed carbon unigolion tu allan i'r gwaith yn ogystal wrth i dueddiadau o’r gwaith gario drosodd i fywydau staff tu allan i'r gweithle.

2.7.12. Mae gwaith wedi ei gyflawni hefyd i ddadansoddi ac addasu amserlenni gwresogi, dwr poeth a.y.y.b. ar ein safleoedd er mwyn sicrhau ein bod yn nadu unrhyw wastraff a defnyddio dim ond yr hyn sydd ei angen. Yn yr un modd rydym wedi dadansoddi ac addasu gosod bwyntiau tymheredd safleoedd i dymereddau priodol. Drwy gyfuniad o hyn, rydym wedi gweld arbedion sylweddol ar dreuliant nwy. Amlygir yn y pwysigrwydd o ehangu ar ein systemau BEMS.

Da ni’n adrodd ar y gwaith yma yn fisol i’r Bwrdd Herio Perfformiad sy’n sicrhau bod y gwaith yn cael y sylw priodol.

**2.8. Beth yw’r camau nesaf**

2.8.1. Byddwn yn parhau i edrych gyda ein gwaith o roi y prosiectau sydd wedi eu rhestru mewn lle

2.8.2. Yr ydym wastad yn edrych am brosiectau newydd fel mae technolegau newydd yn dod. Yn ystod gwaith y ddau Gynllun Rheoli Carbon fe ddaeth amryw o brosiectau i fewn oedd ddim yn y cynllun gwreiddiol a’r gobaith yw bydd hynny’n digwydd eto. Yn wir, yn yr amser ers i’r Ymddiriedolaeth Garbon neud yr

adroddiad pen desg ac ysgrifennu'r adroddiad yma mae achos busnes goleuadau LED mewn adeiladau wedi newid. O ganlyniad da ni'n adeiladu achos busnes o gwmpas y cyfle yma.

2.8.3. Byddwn yn parhau i fonitro ein hadeiladau yn fanwl er mwyn cael gwared o unrhyw ddefnydd di angen.

2.8.4. Fel y gyfeirir ato uchod, tu hwnt i ddibynnu ar dechnoleg, mae gan newid ymddygiad rôl oll-bwysig I'w chwarae os yw'r Cyngor am wireddu ei nod o ddatgarboneiddio erbyn 2030. Yn anffodus, ar draws y Cyngor gwelir enghreifftiau o ymarferion cadwraeth ynni drwg sydd yn tanseilio ein hymdrechion. Er enghraifft:

- Goleuadau allanol yn cael eu gadael ymlaen drwy'r nos, bob nos, fel mesur "security" (hyd yn oed os oes synwyryddion PIR wedi eu gosod arnynt). Nid oes tystiolaeth erioed wedi'i gyflwyno i gefnogi'r honiad fod hyn yn fesur "security" effeithiol, a dylid pob penderfyniad gael ei wneud ar sail wyddonol yn hytrach na barn personol
- Gwresogyddion trydan personol yn cael eu defnyddio yn y gweithle. Ar un achlysur i godi'r tymheredd i 27 gradd!
- Drysau allanol ysgolion cynradd yn cael eu gadael yn llydan agored yn ystod amser egwyl yng nghanol gaeaf
- Dylid rhoi ystyriaeth difrifol I'r mater o gryfhau ein polisïau, a gwerthfawrogwn sgwrs bellach I'r perwyl hyn.

Byddwn yn croesawu cyfle i ddychwelyd at y Pwyllgor Craffu yn y dyfodol i roi diweddariad pellach ar y gweithgarwch y Cynllun Gweithredu Tai.

Atodiad 1 - Nyth


# Nest Local Authority Report: April to June 2022

## Cyngor Gwynedd

| Top Line MI | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | April | May | June | Qtr Total | YTD |
| Calls | 142 | 65 | 50 | 257 | 257 |
| Referrals | 28 | 16 | 11 | 55 | 55 |



| Call to Referral Rate | | | |
|---|---|---|---|
| April | May | June | Average |
| 20% | 25% | 22% | 22% |




| Installation Data | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Loft Insulation | CWI | EWI | Draught Proofing | Boiler Replacement / Central Heating System | Solar Water Heating | Air Source Heat Pump | Other |
| Quarter Total | 1 | 0 | 0 | 0 | 48 | 0 | 0 | 6 |
| Total Approximate Carbon Saving (kgC02)* | 720 | 0 | 0 | 0 | 35,616 | 0 | 0 | |
| Total Approximate Fuel Bill Saving (Annual)* | £175 | £0 | £0 | £0 | £7,584 | £0 | £0 | |


*indicative figures based on Energy Saving Trust average figures. These are approximate figures only and the averages quoted may well differ from actual savings in individual properties. Assumptions include average household boiler efficiency of 78% and 2011 fuel prices , this does not include any allowances for future price increases. In savings figures EST allow for a comfort factor and heat replacement effect, wherever appropriate. Please contact your Nest Partnership Development Manager for more up to date reports and further detail on


Please note that the data shown in this document is based on data provided from the Nest Customer Relationship Management system and installation status data uploads. This may vary when compared to the Nest annual report, particularly due to the time of reporting and customer journey timescale. The data may contain some anomalies therefore cannot be classed as exact or entirely accurate data. Nest will not be held responsible for any inaccuracies in the data and advises that, for any public releases or marketing purposes the Nest annual report data is utilised. Please contact your Nest Partnership Development Manager for any

# Nest Local Authority Report: April to June 2022

## Total Enquiries and Referrals by Local Authority

| Enquiries and Referrals | | |
|---|---|---|
| Local Authority | Enquiries | Referrals |
| Blaenau Gwent | 3% | 3% |
| Bridgend | 5% | 6% |
| Caerphilly | 6% | 6% |
| Cardiff | 7% | 6% |
| Carmarthenshire | 8% | 6% |
| Ceredigion | 3% | 3% |
| Conwy | 5% | 5% |
| Denbighshire | 4% | 4% |
| Flintshire | 4% | 5% |
| Gwynedd | 6% | 4% |
| Isle of Anglesey | 2% | 2% |
| Merthyr Tydfil | 2% | 2% |
| Monmouthshire | 2% | 1% |
| Neath Port Talbot | 2% | 6% |
| Newport | 5% | 4% |
| Pembrokeshire | 4% | 4% |
| Powys | 4% | 2% |
| RCT | 3% | 14% |
| Swansea | 11% | 6% |
| Torfaen | 6% | 3% |
| Vale of Glamorgan | 3% | 3% |
| Wrexham | 3% | 3% |




Nyth Nest Gwneud Cymru'n Glyd Making Wales Cosy


Please note data is a approximate percentage of enquiries and installs within the local authority area. The data may contain some anomolies therefore cannot be classed as exact or entirely accurate data. EST will not be held responsible for any inaccuracies in the data and advises that more accurate data is available in the annual report. Data shown here may differ from data in the annual report.




# Nest Local Authority Report: YTD 2022/2023

## Total Enquiries and Referrals by Local Authority

| Enquiries and Referrals | | |
|---|---|---|
| **Local Authority** | **Enquiries** | **Referrals** |
| Blaenau Gwent | 3% | 3% |
| Bridgend | 5% | 6% |
| Caerphilly | 6% | 6% |
| Cardiff | 7% | 6% |
| Carmarthenshire | 8% | 6% |
| Ceredigion | 3% | 3% |
| Conwy | 5% | 5% |
| Denbighshire | 4% | 4% |
| Flintshire | 4% | 5% |
| Gwynedd | 6% | 4% |
| Isle of Anglesey | 2% | 2% |
| Merthyr Tydfil | 2% | 2% |
| Monmouthshire | 2% | 1% |
| Neath Port Talbot | 2% | 6% |
| Newport | 5% | 4% |
| Pembrokeshire | 4% | 4% |
| Powys | 4% | 2% |
| RCT | 3% | 14% |
| Swansea | 11% | 6% |
| Torfaen | 6% | 3% |
| Vale of Glamorgan | 3% | 3% |
| Wrexham | 3% | 3% |




Nyth Nest Gwneud Cymru'n Glyd Making Wales Cosy


Please note data is a approximate percentage of enquiries and installs within the local authority area. The data may contain some anomolies therefore cannot be classed as exact or entirely accurate data. EST will not be held responsible for any inaccuracies in the data and advises that more accurate data is available in the annual report. Data shown here may differ from data in the annual report.




# Nest Local Authority Report: April to June 2022

## Total Enquiries and Referrals Per Capita by Local Authority

| % Enquiries and Referrals (Per Capita) | | |
|---|---|---|
| **Local Authority** | **Enquiries** | **Referrals** |
| Blaenau Gwent | 0.43% | 0.10% |
| Bridgend | 0.37% | 0.13% |
| Caerphilly | 0.37% | 0.11% |
| Cardiff | 0.21% | 0.05% |
| Carmarthenshire | 0.45% | 0.10% |
| Ceredigion | 0.42% | 0.12% |
| Conwy | 0.40% | 0.12% |
| Denbighshire | 0.50% | 0.13% |
| Flintshire | 0.31% | 0.09% |
| Gwynedd | 0.48% | 0.10% |
| Isle of Anglesey | 0.29% | 0.09% |
| Merthyr Tydfil | 0.36% | 0.11% |
| Monmouthshire | 0.25% | 0.04% |
| Neath Port Talbot | 0.14% | 0.12% |
| Newport | 0.39% | 0.08% |
| Pembrokeshire | 0.35% | 0.09% |
| Powys | 0.35% | 0.05% |
| RCT | 0.15% | 0.17% |
| Swansea | 0.48% | 0.07% |
| Torfaen | 0.75% | 0.11% |
| Vale of Glamorgan | 0.22% | 0.08% |
| Wrexham | 0.23% | 0.07% |




Nyth Nest — Gwneud Cymru'n Glyd — Making Wales Cosy


Please note data is a approximate percentage of enquiries and installs within the local authority area. The data may contain some anomolies therefore cannot be classed as exact or entirely accurate data. EST will not be held responsible for any inaccuracies in the data and advises that more accurate data is available in the annual report. Data shown here may differ from data in the annual report.




# Nest Local Authority Report: YTD 2022/2023

## Total Enquiries and Referrals Per Capita by Local Authority

| % Enquiries and Referrals (Per Capita) | | |
|---|---|---|
| **Local Authority** | **Enquiries** | **Referrals** |
| Blaenau Gwent | 0.43% | 0.10% |
| Bridgend | 0.37% | 0.13% |
| Caerphilly | 0.37% | 0.11% |
| Cardiff | 0.21% | 0.05% |
| Carmarthenshire | 0.45% | 0.10% |
| Ceredigion | 0.42% | 0.12% |
| Conwy | 0.40% | 0.12% |
| Denbighshire | 0.50% | 0.13% |
| Flintshire | 0.31% | 0.09% |
| Gwynedd | 0.48% | 0.10% |
| Isle of Anglesey | 0.29% | 0.09% |
| Merthyr Tydfil | 0.36% | 0.11% |
| Monmouthshire | 0.25% | 0.04% |
| Neath Port Talbot | 0.14% | 0.12% |
| Newport | 0.39% | 0.08% |
| Pembrokeshire | 0.35% | 0.09% |
| Powys | 0.35% | 0.05% |
| RCT | 0.15% | 0.17% |
| Swansea | 0.48% | 0.07% |
| Torfaen | 0.75% | 0.11% |
| Vale of Glamorgan | 0.22% | 0.08% |
| Wrexham | 0.23% | 0.07% |




Nyth Nest
Gwneud Cymru'n Glyd
Making Wales Cosy

Please note data is a approximate percentage of enquiries and installs within the local authority area. The data may contain some anomolies therefore cannot be classed as exact or entirely accurate data. EST will not be held responsible for any inaccuracies in the data and advises that more accurate data is available in the annual report. Data shown here may differ from data in the annual report.


*Household estimates based on 2011 census*



Atodiad 2 - Rhestr Cyfleon

| | | | Amcangyfrif Arbedion Ynni Blynyddol | | Costau eraill | Cyfanswm Arbedion (£) | Cost Buddsoddi (£) | Talu'n ôl Syml | Effaith Carbon | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyf.** | **Safle** | **Cyfle** | **KWh** | **£** | **O&M** | | | **(Blynyddoedd)** | **Blwyddyn 1 $tCO_2e$** | **Cyfanswm oes $tCO_2e$** |
| R1 | Dros yr Ystâd | Gwell Rheolaeth Ynni a Hyfforddiant | | | | | | | | |
| R2 | Dros yr Ystâd | Gwell dadansoddiad aMM&T | 2,207,744 | £165,393 | £10,000 | £155,000 | £??,000 | 0.1 | 400 | 4,000 |
| R3 | Dros yr Ystâd | ehangu aMM&T | | | | | | | | |
| R4 | Dros yr Ystâd | Gwella ffabrig yr adeilad | 733,710 | £27,148 | £0 | £27,000 | £638,000 | 23.5 | 137 | 4,120 |
| R5 | Dros yr Ystâd | Ehangu PV ymhellach | 1,758,990 | £320,136 | £50,000 | £270,000 | £1,862,000 | 6.9 | 289 | 7,234 |
| R6 | Dros yr Ystâd | Pympiau Gwres* | 9,996,390 | -£113,284 | £10,000 | -£123,000 | £2,777,000 | - | 1,874 | 18,740 |
| R7 | Dros yr Ystâd - ble fo'n gymwys | Ffannau EC | 92,736 | £16,878 | £0 | £17,000 | £93,000 | 5.5 | 15 | 153 |
| R8 | Cartrefi Gofal | Ystafell bwrpasol mewn cartref gofal a rheoliadau tymheredd | 1,232,492 | £45,603 | £0 | £45,000 | £68,000 | 1.5 | 224 | 2,240 |
| R9 | Canolfannau Hamdden | Uwchraddio goleuadau arbenigol | 89,136 | £13,722 | £0 | £13,722 | £107,336 | 7.8 | 25.4 | 254 |

Atodiad 3 – Lleihad Carbon wrth wireddu'r prosiectau



Atodiad 4 - Ffermydd solar unigol ar raddfa fawr

| **Safle** | **Blaenoriaeth** | **Capasiti MW** | **Cynhyrchu Blynyddol (kWh)** | **Effaith Carbon - Blwyddyn 1 (tCO2e)** | **Cost Gyswllt Grid** | **Cyfanswm (yn cynnwys uwchraddio pan fo angen*)** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dol Tŷ Isaf | A | 1.75 MW | 1,487,500 | 377 | £2,400k | £2,400k |
| Hen Chwarel Domen Fawr Talysarn | A | 2.2 MW | 1,870,000 | 473 | £2,585k | £5,585k |
| Tir yn Brynllangedwydd | A | 9.75 MW | 8,287,500 | 2,098 | £1,382k | £4,382k |
| Tir Frondderw | A | 2.2 MW | 1,870,000 | 473 | £2,400k | £2,400k |
| Nantporth | B | 5.5 MW | 4,675,000 | 1,184 | £1,235k | £4,235k |
| Tir ym Mhant Dreiniog, Bethesda | B | 4 MW | 3,400,000 | 861 | £574k | £3,574k |
| Lôn Cob Bach Pwllheli | B | 2.5 MW | 2,125,000 | 538 | £1,559k | £4,559k |
| Safle Glyn Rhonwy | C | 7.5 MW | 6,375,000 | 1,614 | £1,641k | £4,641k |
| Tir yn Nhyddyn Llwyndyn | C | 1 MW | 850,000 | 215 | £236k | £3,236k |
| Safle Gwastraff Cilgwyn – Senario 1 | C | 11 MW | 9,350,000 | 2,367 | £1,944k | £4,944k |
| Safle Gwastraff Cilgwyn – Senario 2 | C | 1 MW | 850,000 | 215 | *Heb uwchraddio'r Grid* | |
| Cyfanswm (yn cynnwys Cilgwyn - Senario 1)" | | | | 10,201 | £18.956M | |
| Cyfanswm (yn cynnwys Cilgwyn - Senario 2) | | | | 8,049 | | |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU GOFAL |
| **DYDDIAD** | 29 Medi 2022 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Gofal 2022/23 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 i'w mabwysiadu. |
| **AWDUR** | Llywela Haf Owain, Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu |

1. Yng ngweithdy blynyddol y Pwyllgor ar 7 Gorffennaf 2022 ystyriwyd eitemau posib i'w craffu yn ystod 2022/23. Blaenoriaethwyd eitemau gan gadw mewn cof pwrpas craffu yng Ngwynedd, sef:

**CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD**

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

2. Bu aelodau yn trafod mewn grwpiau llai o ran eu blaenoriaethau hwy o'r rhestr o eitemau posib a ddarparwyd ymlaen llaw gyda chyfle i aelodau awgrymu eitemau posib eraill. Gofynnwyd i aelodau wrth adnabod eu blaenoriaethau ystyried:

- *A yw'r mater yn effeithio ar gyfran helaeth o'r boblogaeth?*
- *A yw craffu yn gallu gwneud gwahaniaeth / cael dylanwad? (Pobl / gwasanaeth / perfformiad)*
- *A yw'r mater yn amserol i'w graffu?*
- *Ydi'r mater yn flaenoriaeth i'r Cyngor?*
- *A ydym yn glir beth ydym yn ceisio ei wella?*

3. Yn dilyn adrodd yn ôl o'r grwpiau, aethpwyd ati i flaenoriaethu eitemau i'w craffu gan wahodd yr Aelodau Cabinet a Phenaethiaid perthnasol i ymuno er mwyn nodi unrhyw beth ychwanegol oedd angen ei ystyried o ran yr eitemau a

flaenoriaethwyd gan aelodau'r Pwyllgor ynghyd â rhoi sylwadau o ran amseru'r craffu.

4. Ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad gweler rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor. Gwnaed ymgais i flaenoriaethu uchafswm o dair eitem fesul cyfarfod er mwyn sicrhau bod sylw teilwng yn cael ei roi i faterion a bod craffu yn gallu ychwanegu gwerth. Nid oedd hynny yn bosibl ar bob achlysur ac felly mae pedair eitem wedi eu rhaglennu ar gyfer dau gyfarfod.

5. Rhaglennwyd yr eitem 'Gwasanaeth Ambiwlans' ar gyfer cyfarfod 29 Medi 2022 yn y gweithdy blynyddol. Nid oedd cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Ambiwlans ar gael i fynychu'r cyfarfod, felly mae'r eitem wedi symud i gyfarfod 10 Tachwedd 2022, lle bydd cynrychiolwyr yn bresennol.

6. Yn y gweithdy blynyddol penderfynwyd craffu Asesiad Anghenion Poblogaeth yng nghyfarfod 29 Medi, 2022. Yn anffodus cafwyd gwybod nad oedd hynny'n bosibl ac felly mae'r eitem wedi llithro i gyfarfod mis Tachwedd.

7. Cafwyd gwybod hefyd na fyddai modd cyflwyno adroddiad Recriwtio a chadw staff yn y maes gofal gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd felly mae'r eitem wedi ei nodi fel un i'w thrafod yng nghyfarfod 16 Chwefror.

8. Er mwyn sicrhau nad oes gormod o eitemau ar raglen cyfarfod 10 Tachwedd, symudwyd eitem Darpariaeth Gofal Dementia i gyfarfod 20 Ebrill.

9. Mater a adnabuwyd yn y gweithdy blynyddol fel mater oedd angen sylw oedd iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Yn dilyn trafodaeth, daethpwyd i'r casgliad y dylid cynnal sesiwn gwybodaeth i adnabod os oes elfen benodol angen ei graffu. Mi fydd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn trafod y ffordd ymlaen gyda'r Pennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Aelod Cabinet yn eu cyfarfod cyswllt ym mis Hydref.

10. Mae'r blaenraglen craffu yn rhaglen fyw a fydd yn cael ei adolygu yn gyson yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod y materion cywir yn cael sylw. Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethu materion a fydd yn codi yn ystod y flwyddyn e.e. materion o gyfarfodydd herio perfformiad ac eitemau ar flaenraglen y Cabinet.

11. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Gofal fabwysiadu'r rhaglen waith ar gyfer 2022/23.**

ATODIAD

## BLAENRAGLEN DDRAFFT PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 2022/23

| **07/07/2022** |
| --- |
| • Adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad Gofal Gogledd Cymru |
| **29/09/2022** |
| • Recriwtio a chadw staff yn y maes gofal (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)<br>• Gwasanaeth Cadwraeth Ynni Newydd |
| **10/11/2022** |
| • Gwasanaeth Ambiwlans<br>• Gwasanaeth Ieuenctid<br>• Adroddiad Asesiad Anghenion Poblogaeth Gwynedd<br>• Polisi Gosod Tai |
| **16/02/2023** |
| • Siop Un Stop Tai<br>• Cynllun Gweithredu Tai<br>• Lleoliadau Plant Mewn Gofal<br>• Recriwtio a chadw staff yn y maes gofal (Adran Plant a Theuluoedd) |
| **20/04/2023** |
| • Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gwynedd (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)<br>• Cynllun Awtistiaeth 2021-23<br>• Darpariaeth Gofal Dementia |